




Optometreg: Sicrhau Cymru Iachach



Pwyllgor Optometrig
Cymru 2021

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Rhagair

Yn 2020, gwahoddodd Llywodraeth Cymru Bwyllgor Optometrig Cymru i ddatblygu ei gweledigaeth dros y degawd nesaf ac i ddisgrifio rôl optometryddion ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru. Gweledigaeth sy'n amlinellu'r camau nesaf i bob rhanddeiliad fanteisio arnynt wrth gyflawni "Cymru Iachach" yw'r cynnyrch terfynol Optometreg: Sicrhau Cymru Iachach.

Mae gan optometreg rôl allweddol wrth gyflawni nodau "Cymru Iachach" trwy ddarparu gofal llygaid. Mae rôl ymarferwyr gofal llygaid wedi datblygu i raddau helaeth ers i Wasanaeth Gofal Llygaid GIG Cymru gael ei gyflwyno, ac mae optometryddion ac optegwyr gweinyddu'n rhan annatod o drawsnewid a pharhau i ddatblygu gofal yn nes at y cartref. Er bod heriau ynghlwm wrth sicrhau bod gan gleifion fynediad amserol at holl wasanaethau gofal llygaid, mae pob aelod o'r tîm clinigol sy'n darparu gwasanaethau ar draws y llwybr cleifion yn cydweithio i weithio ar frig eu priod drwydded glinigol.

Mae'r weledigaeth, sef Optometreg: Sicrhau Cymru Iachach yn ffrwyth gwaith sawl mis o ymgysylltu a thrafod helaeth gyda Phwyllgor Optometrig Cymru a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli. Roedd Pwyllgor Optometrig Cymru'n unfrydol o ran sut y gall y gweithlu ddarparu cymorth pellach, a hynny trwy well defnydd o wybodaeth a sgiliau unigryw optometryddion ac optegwyr gweinyddu. Mae gofal a rennir a'r defnydd o'r data TG a'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf yn sail i hyn oll.

Mae'r weledigaeth yn gwneud datganiad, yn disgrifio optometreg fel y prif lwybr yn y gymuned i gydweithwyr yn adrannau llygaid ysbyty, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol gydweithio â hi, trwy glystyrau gofal sylfaenol, a darparu gofal yn nes at y cartref. Mae'r dull gweithredu cymunedol hwn yn helpu i leihau'r pwysau mewn ysbytai ac yn lleihau'r amser y mae pobl yn gorfod aros i gael mynediad at wasanaethau arbenigol mewn ysbytai.



David O'Sullivan,
Prif Optometrig Ymgynghorol,
Llywodraeth Cymru

Mae'r datblygiadau arloesol mewn optometreg gofal sylfaenol dros y ddau ddegawd diwethaf wedi dangos bod optometryddion ac optegwyr gweinyddu yn hyblyg ac yn effro i anghenion cleifion a GIG Cymru. Mae Pwyllgor Optometrig Cymru wedi ymrwmo i weithio gyda thimau clinigol sy'n darparu gwasanaethau ar hyd y llwybr cleifion i wireddu eu gweledigaeth Optometreg: Sicrhau Cymru Iachach', sydd, er yn uchelgeisiol, yn cyflwyno dyfodol cadarnhaol i'r GIG yng Nghymru.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Cynnwys

Tudalen 2 Rhagair

Tudalen 3 Cynnwys

Tudalen 4 Ynglŷn â Phwyllgor Optometrig Cymru

Tudalen 7 Thema 1. Rheoli mwy o gleifion ym maes gofal llygaid
sylfaenol

Tudalen 21 Thema 2. Gofal llygaid di-dor, yn gweithio fel un
gwasanaeth offthalmig

Tudalen 28 Thema 3. Datblygu'r gweithlu optometreg

Tudalen 36 Thema 4. Harneisio atebion technoleg ar draws y llwybrau
cleifion integredig cenedlaethol

Tudalen 42 Crynodeb o'r nodau

Tudalen 43 Cyfeiriadau

Tudalen 48 Sut y cynhyrchwyd y ddogfen hon

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Ynglŷn â Phwyllgor Optometrig Cymru

Pwyllgor Optometrig Cymru yw'r pwyllgor statudol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud ag optometreg a'r proffesiwn optometrig.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer sut y bydd cleifion yn elwa ymhellach o sgiliau'r tîm optometreg yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf.

Cyn Covid, datblygodd Pwyllgor Optometrig Cymru gynllun i amlinellu gweledigaeth ar gyfer sut y byddai timau optometreg yn darparu'r strategaeth gofal iechyd 'Cymru Iachach'(1). Ers rhai blynedd, roedd gwasanaethau offthalmoleg mewn ysbytai wedi bod yn dioddef oediadau annerbyniol oherwydd cyffredinrwydd cynyddol cyflyrau llygaid sy'n bygwth y golwg, gwell triniaethau a phrinder offthalmolegwyr. Mewn ymateb, roedd optometryddion yn gallu trin a rheoli yn ddiogel mwy o gleifion mewn gofal llygaid sylfaenol yng Nghymru ers cyflwyno Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru, a gwelliannau cysylltiedig i ofal cleifion. Fodd bynnag, mae newid wedi bod yn araf ac yn heriol. Roedd y newid trawsnewidiol i iechyd a gofal cymdeithasol a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' wir yn taro tant gyda ni fel proffesiwn o ran sut y byddem yn dymuno i wasanaethau gofal llygaid ddatblygu yng Nghymru i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Roeddem yn bwriadu, felly, ymgynghori yn eang a disgrifio ein gweledigaeth mewn dogfen.

Nid tan ddiwedd 2020 a dechrau 2021 y gwnaeth y Pwyllgor wir ddechrau llunio ei syniadau am y dyfodol ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Erbyn hynny, roedd pandemig Covid-19 wedi taro Cymru yn wirioneddol. Ym maes gofal sylfaenol, roeddem wedi gallu parhau ac yn gorfod camu i fyny a gweithredu ar frig ein trwydded. Daeth ffyrdd newydd o weithio i'r amlwg, fel ymgynghoriadau o bell a'r defnydd cynyddol o ragnodwyr annibynnol yn ein plith. Roedd timau offthalmoleg mewn ysbytai wedi ceisio parhau, ond am gyfnodau hir o amser, roedd argyfwng Covid yn ei gwneud yn ofynnol canslo apwyntiadau a llawdriniaethau cleifion allanol nad oeddent yn rhai brys. Felly, roedd yr oediadau a oedd eisoes yn hir cyn cael gofal offthalmig mewn ysbytai yn cynyddu. Mae'r dirwedd gofal offthalmig wedi newid yn sylfaenol, a bydd yn cymryd blyneddau i ddychwelyd i'r sefyllfa yr oeddem ynddi hyd yn oed.

Fodd bynnag, ni fyddai dychwelyd yn datrys y problemau ac felly nid oedd yn opsiwn. Pan ailystyriwyd 'Cymru Iachach' gennym, roedd y newid trawsnewidiol yr oedd yn ei argymhell yn ymddangos yn fwy perthnasol fyth. Roedd yr angen am ofal di-dor, wedi'i ddarparu mor agos i'r cartref â phosibl â phobl yn mynd i'r ysbyty dim ond pan fo'n hanfodol yn hollbwysig


Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

bellach. Roedd yr angen i ddefnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel a gweithlu ymroddgar i gyflawni'r nodau nawr yn hanfodol.

Mae amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2) yn ein hannog i "feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'n gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig" ac mae hyn yn taro tant gyda ni nawr mwy nag erioed. Felly, cyflwynir ein gweledigaeth, sydd ag 11 o egwyddorion, o dan bedair thema sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r cysyniadau allweddol a amlinellir gan Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol. I wireddu ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu nodau penodol i'w cyflawni o fewn y 3 a'r 10 mlynedd nesaf.

Mae timau optometreg ledled Cymru yn ymrwmo i weithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau, sefydliadau trydydd sector, cydweithwyr yn GIG Cymru (ym maes gofal sylfaenol ac mewn ysbytai), awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ysgogi'r newidiadau yr ydym yn eu disgrifio yn ein gweledigaeth ac yr ydym yn credu sydd eu hangen i sicrhau Cymru iachach.



Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Themâu

Rheoli mwy o gleifion ym maes gofal llygaid sylfaenol

Bydd mwy o wasanaethau gofal llygaid yn cael eu darparu y tu allan i ysbytai, yn agosach i gartrefi pobl, neu yn y cartref, a bydd pobl yn mynd i'r ysbyty neu at eu meddyg teulu dim ond os na ellir darparu'r rheini yn ddiogel mewn practis optometreg. Bydd hyn yn helpu i dynnu pwysau oddi ar ein hysbytai a lleihau'r amser y mae'n rhaid i bobl aros i gael eu trin.

Gofal llygaid di-dor, yn gweithio fel un gwasanaeth offthalmig

Gweithio gyda meddygon teulu, fferyllwyr, offthalmolegwyr, orthoptyddion, gweithwyr adsefydlu ac eraill ym meysydd gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaeth gofal llygaid integredig sy'n canolbwyntio ar y claf.

Datblygu'r gweithlu optometreg

Annog proffesiwn medrus, sy'n addas ar gyfer newid technolegol a demograffig yn y dyfodol.

Harneisio atebion technoleg ar draws y llwybrau cleifion integredig cenedlaethol

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i helpu ein staff i weithio'n well gyda'i gilydd ac i sicrhau'r iechyd llygaid gorau posibl.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Thema 1

Rheoli mwy o gleifion ym maes gofal llygaid sylfaenol

Egwyddorion

- 1) Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gan y cyhoedd well dealltwriaeth o swyddogaeth optometreg ac yn mynd i bractis optometrig fel man galw cyntaf yn y GIG os oes ganddynt broblem gyda'u llygaid.
- 2) Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth i newid y trefniadau cytundebol ar gyfer optometreg fel ein bod yn gallu rheoli mwy o bobl ym maes gofal sylfaenol yn hytrach nag atgyfeirio i eraill. Trwy hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn cael ein hariannu yn briodol ar gyfer ein harfer clinigol a ddim yn dibynnu mwyach ar werthu sbectols i'n practisau fod yn hyfyw yn economaidd ym mhob cymuned.
- 3) Byddwn yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau i feddygon teulu ac adrannau llygaid ysbytai trwy reoli mwy o gleifion ym maes gofal llygaid sylfaenol, gan gynnwys y cleifion hynny sy'n rhan o'r gwasanaeth llygaid ysbyty arbenigol ar hyn o bryd.



Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

1

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gan y cyhoedd well dealltwriaeth o swyddogaeth optometreg ac yn mynd i bractis optometrig fel man galw cyntaf yn y GIG os oes ganddynt broblem gyda'u llygaid.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Mae agwedd fanwerthu sydd bennaf ym maes optometreg wedi effeithiau ar dybiaeth y cyhoedd o sgiliau optometrig ac yn rhy aml caiff optometryddion eu nodi dim ond fel darparwyr sbectols ac nid gofal iechyd. Er y byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y dasg bwysig o ddarparu dyfeisiau meddygol i gywiro gwallau plygiannol, mae poblogaeth gynyddol hŷn a chyffredinrwydd cynyddol clefyd llygaid yn gofyn am weithlu ym maes gofal sylfaenol i fonitro a rheoli mwy o gleifion â chlefyd llygaid, a gweithwyr proffesiynol yn gweithio ar frig eu trwydded.

Bydd optometryddion, optegwyr sy'n cyflenwi, a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn gweithio gyda grwpiau cleifion a sefydliadau trydydd sector yn genedlaethol a thrwy rwydweithiau lleol i ymgysylltu â'r cyhoedd am natur newidiol gwasanaethau gofal llygaid.

Mae grwpiau cleifion a sefydliadau trydydd sector yn dweud wrthym eu bod yn awyddus i gefnogi'r ymgysylltiad hwn a fydd yn helpu cleifion i gael eu gweld gan y person iawn, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn. Byddwn yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hannog i "Ddewis yn dda" ac mai'r lle iawn ar gyfer cymorth a chynghor ar faterion sy'n gysylltiedig â gofal iechyd fydd eu practis optometrig lleol yn y lle cyntaf.

Bydd contractwyr gofal sylfaenol eraill yn ein cymunedau, yn enwedig meddygon teulu a fferyllwyr yn bwysig yn y newid hwn, gan gyfeirio ac atgyfeirio pobl â phroblemau gyda'u llygaid atom ni.

Profion golwg i blant

Bydd hybu gofal llygaid ar oedran ifanc yn helpu i gychwyn arferion da trwy roi cyngor i deuluoedd a phlant a'u hannog i fynychu practis optometrig yn rheolaidd wrth iddynt dyfu i fyny.

Byddwn yn gweithio i annog teuluoedd i ystyried practisau optometrig fel y man cysylltu cyntaf ar gyfer pryderon ynghylch golwg plentyn. Nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae llyfr 'Bwmp, Babi a Thu Hwnt' Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn cynghori rhieni i

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

gysylltu â'ch ymwelydd iechyd neu'ch meddyg os yw'n ymddangos bod gan eich plentyn bach broblemau gyda'i golwg. Ein nod, gan weithio gydag arbenigwyr datblygiad plant, fydd sicrhau bod llenyddiaeth a roddir i rieni a'r llyfr coch plant yn cyfeirio at optometregddion fel y gweithwyr proffesiynol i fynd atynt ar gyfer problemau golwg.

Mae'r arfer presennol o sgrinio golwg wrth ddechrau'r ysgol yn golygu y dylai plant 4–5 oed gael eu sgrinio trwy raglen dan arweiniad orthoptydd. Cyfeirir llawer o'r plant y nodir wedyn bod ganddynt ddiffyg llygad neu olwg tybiedig yn awtomatig at wasanaethau ysbyty pan nad oes angen i hynny ddigwydd.

Gan fod gwasanaethau optometreg ar gael o fewn 20 munud i bob aelwyd yng Nghymru a bod apwyntiadau yr un diwrnod yn aml ar gael ar gyfer profion golwg a ariennir gan y GIG, byddwn yn gweithio gydag orthoptyddion i sicrhau bod pob plentyn y nodir ei fod angen asesiad neu ofal pellach yn cael ei weld gan optometrydd ac yn cael ei gyfeirio at ofal eilaidd dim ond pan fo'n angenrheidiol.

Nod 2024

- Caiff pob plentyn sy'n aflwyddiannus mewn profion sgrinio golwg yn yr ysgol ei weld gan optometrydd a chaiff ei gyfeirio at ofal eilaidd dim os yw'n glinigol angenrheidiol.
- Mae llenyddiaeth i rieni a'r cofnod iechyd plant personol (llyfr coch) yn hyrwyddo pwysigrwydd plant yn mynychu practis optometrig yn rheolaidd a chyfeirio at optometryddion fel y gweithwyr proffesiynol i fynd atynt ar gyfer pryderon iechyd llygaid neu olwg.

Nod 2031

- Mae cleifion yn dewis practisau optometreg yn y lle cyntaf ar gyfer cymorth a chynghor ar faterion yn ymwneud â'r llygaid.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

2

Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth i newid y trefniadau cytundebol ar gyfer optometreg fel ein bod yn gallu rheoli mwy o bobl ym maes gofal sylfaenol yn hytrach nag atgyfeirio i eraill. Trwy hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn cael ein hariannu yn briodol ar gyfer ein harfer clinigol a ddim yn dibynnu mwyach ar werthu sbectols i'n practisau fod yn hyfyw yn economaidd ym mhob cymuned.

Contract newydd ar gyfer optometreg

Mae'r trefniadau presennol a'r strwythur taliadau cysylltiedig yn golygu nad yw practisau optometrig yn derbyn digon o dâl ar gyfer amser clinigol. I ddarparu gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol a chynnal eu gweithlu, nid oes gan bractisau unrhyw ddewis ond darparu profion golwg y Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS) a ariennir gan y GIG am gollod. Mae'n rhaid i'r bwlch o ran ffioedd gael ei lenwi gan yr elw o werth sbectols.

Mae tanariannu hirhoedlog gwasanaethau clinigol a diffyg cyfleoedd hyfforddiant wedi'u hariannu wedi atal practisau a gweithwyr proffesiynol rhag cynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau iechyd llygaid y GIG ym maes gofal sylfaenol. Mae'r ôl-groniad cynyddol a'r oedi cyn cael mynediad at ofal eilaidd yn golygu ei bod yn hanfodol rhoi sylw i'r rhwystrau hyn bellach.

Bydd contract newydd yn symud oddi wrth y model clinigol sydd wedi'i danariannu â'i ddibyniaeth ar werthu taclau optegol. Bydd yn dod â'r gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol presennol (GOS, EHEW, Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru a'r gwasanaethau cartref) ynghyd mewn un dull safonol i sicrhau mwy o fuddion i bob dinesydd.

Nod y gwasanaeth newydd fydd gwella mynediad at wasanaethau gofal llygaid cartref a'u cwmpas er budd cleifion. Bydd gofynion llywodraethu cyfochrog a bydd llwybrau gofal llygaid brys cyn/ar ôl llawdriniaeth yn rhan o'r gwasanaethau cartref, ochr yn ochr â phroffion golwg a gofal golwg gwan.

Rydym wedi bod yn hyblyg fel proffesiwn ac wedi croesawu newid sy'n cefnogi gofal cleifion gwell. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth a GIG Cymru i sicrhau bod y contract newydd yn alluogydd o fomentwm newid parhaus, ac nid yn rhwystr. Bydd cam cychwynnol y cyflwyniad yn cynnwys yr holl wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth i sgiliau ac offer ddatblygu ac i wasanaethau optometrig uwch ddod yn brofedig, byddwn yn gweithio i gynnwys y datblygiadau yn y contract i sicrhau mynediad teg ledled Cymru. Rydym yn

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

disgwyl i'r contract ar gyfer optometreg gofal sylfaenol gynnwys cyfres o wasanaethau gofal llygaid uwch hefyd (fel yr amlinellir o dan 3) isod) i alluogi mwy o gleifion i gael eu rheoli yn agosach at eu cartrefi, yn hytrach na chael eu cyfeirio i'r ysbyty.

Gan y bydd timau optometreg yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am fonitro a rheoli clefyd llygaid ym maes gofal sylfaenol ac y bydd y trefniadau cytundebol yn uno sawl gwasanaeth, bydd angen diwygio trefniadau llywodraethu. Bydd datblygu systemau, prosesau a strwythurol llywodraethu cydlynol yn rhoi sicrwydd bod gofal diogel ac o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i gleifion yn ogystal â gwerthuso a monitro'r gwasanaeth gofal llygaid diwygiedig.

Mae ymchwil ac archwilio yn elfennau pwysig o lywodraethu clinigol. Ar hyn o bryd, caiff y rhan fwyaf o waith

gwerthuso gwasanaethau optometreg ei wneud ar lefel genedlaethol. Yn sgil y swyddogaeth glinigol sy'n ehangu, bydd ymchwil yn seiliedig ar ymarfer a fframweithiau archwilio ac archwiliadau clinigol o wasanaethau y gellir eu hadrodd yn cael eu cynnwys mewn llwybrau gofal llygaid ac mewn mecanweithiau cytundebol.



O ran y contract newydd, bydd yn bwysig adolygu'r data a gesglir. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r naratif sydd ar gael ynghylch optometreg gofal sylfaenol. Bydd cyfres newydd o ddata yn cael ei chasglu a'i hadrodd i gynnig dangosfwrdd byw o ofal llygaid sylfaenol. Casglu electronig gan wasanaethau fydd y dull safonol newydd a bydd hyn yn gofyn am iaith adrodd gyffredin.

Bydd y mesurau o weithgarwch system, gweithlu a chapasiti yn haws i gytuno arnynt a'u casglu ac yn cael eu hymwreiddio o'r cychwyn. Er eu bod yn hanfodol i fesur ansawdd a gwerth, mae'n fwy anodd datblygu mesurau canlyniadau sydd o bwys i gleifion a'u hymwreiddio mewn gofal clinigol mater o drefn. Byddwn yn gweithio tuag at ddatblygu mesurau ac offerynnau canlyniadau y gellir eu hadrodd yn barhaus.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Nod 2024

- Cyflwyno contract newydd ar gyfer optometreg gofal sylfaenol â phwyslais ar ofal clinigol ledled Cymru gan ddod â gwasanaethau GOS, EHEW, cartref a golwg gwan ynghyd.
- Mae'r contract ar gyfer optometreg gofal sylfaenol yn cynnwys cyfres o wasanaethau gofal llygaid uwch sy'n galluogi mwy o gleifion i gael eu rheoli yn agosach at eu cartrefi, yn hytrach na chael eu cyfeirio i'r ysbyty.
- Mae llywodraethu wedi'i ddiweddarau ar gyfer gwasanaethau cartref yn galluogi pobl i gael gafael ar ofal llygaid brys a, llwybrau cyn/ar ôl llawdriniaeth gartref os na allant fynd i bractis optometreg.
- Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu yn electronig i alluogi gwybodaeth gweithgarwch, gweithlu a chapasiti am ofal sylfaenol i gael ei hadrodd i ddangosfwrdd byw.

Nod 2031

- Mae'r contract newydd ar gyfer optometreg gofal sylfaenol yn ddigon hyblyg i alluogi gwasanaethau presennol i gael eu haddasu ac i wasanaethau newydd gael eu datblygu, gan gadw i fyny â'r galw a datblygiadau i dechnoleg, triniaethau, a hyfforddiant.
- Caiff archwiliadau clinigol ac ymchwil lefel practis eu cynnal fel mater o drefn ym maes gofal llygaid sylfaenol.
- Bydd mesurau canlyniadau sydd o bwys i gleifion yn cael eu hymwreiddio mewn gofal clinigol optometrig mater o drefn.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

3

Byddwn yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau i feddygon teulu ac adrannau llygaid ysbytai trwy reoli mwy o gleifion ym maes gofal sylfaenol, gan gynnwys y cleifion hynny sy'n rhan o'r gwasanaeth llygaid ysbyty arbenigol ar hyn o bryd.

Mae apwyntiadau ysbyty i gleifion allanol ar gyfer gofal llygaid yn fwy niferus nag unrhyw arbenigedd arall a llawdriniaethau cataract yw'r llawdriniaethau a gyflawnir fwyaf yn y GIG. Rydym yn ymwybodol iawn bod diffyg ystadau, offer, ac offthalmolegwyr i ddiwallu'r angen cynyddol ymhlith cleifion am wasanaethau llygaid mewn ysbytai ac ni all systemau mewn ysbytai barhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un ffordd mwyach. Mae meddygon teulu hefyd o dan bwysau cynyddol i wneud mwy. Mae timau optometreg yn barod i ymestyn y gwasanaethau y maent yn eu cynnig ac mae'r offer diagnostig a'r sgiliau ganddynt i reoli amrywiaeth lawer ehangach o broblemau gofal llygaid ym maes gofal sylfaenol na'r hyn a gomisiynwyd yn draddodiadol.

Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae optometryddion yng Nghymru wedi arloesi ac esblygu i ddiwallu mwy o anghenion cleifion yn agosach at eu cartrefi, gan leihau'r pwysau ar feddygon teulu ac ysbytai. Cyflawnwyd hyn trwy wneud y defnydd gorau o arbenigedd a chymwyseddau craidd mewn lleoliadau gofal llygaid sylfaenol. Yn ogystal â hyn, mae optometryddion wedi bod yn ymestyn cwrdd eu hymarfer trwy hyfforddiant ac achrediad ychwanegol. Yn y 5 mlynedd diwethaf, mae llawer wedi ennill cymwysterau proffesiynol uwch. Mae hyn, ynghyd â'r offer diagnostig gwell sydd ar gael mewn practisau optometrig erbyn hyn a'r capasiti yn eu hystâd yn golygu ei bod yn bosibl monitro a rheoli llawer mwy o gleifion gofal llygaid ym maes gofal sylfaenol a chyfeirio llawer llai i ysbytai a meddygon teulu.

Ein huchelgais yw y bydd gofal llygaid yn esiampl o ofal iechyd darbodus – gan symud gofal yn agosach i gartrefi pobl. Byddwn yn datblygu llwybrau newydd a fydd â'r nod o leihau nifer yr atgyfeiriadau i adrannau llygaid yr ysbytai o 1/3 ac yn rhyddhau hyd at 35,000 o apwyntiadau dilynol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall y cleifion hynny a all gael eu rheoli gan offthalmolegwyr yn unig gael eu gweld yn brydlon.

Wrth i bractisau optometrig gynnig mwy a mwy o wasanaethau estynedig, bydd angen i gwmpas yr holl dîm gofal llygaid sylfaenol, gan gynnwys optegwyr sy'n cyflenwi a chynorthwywyr optegol, newid.

Mae angen dull cam wrth gam dros y 10 mlynedd nesaf a byddwn yn gweithio yn agos gyda meddygon teulu, clystyrau ac offthalmolegwyr i ddiwallu anghenion gofal llygaid ein

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

cymuned yn y ffordd orau trwy ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir ym maes optometreg gofal sylfaenol. Bydd angen i rai gwasanaethau fod ar gael ym mhob practis ond efallai mai'r ffordd orau o ddarparu eraill, ar gyfer cyflyrau sy'n llai cyffredin, ar lefel clwstwr neu fwrdd iechyd. Byddwn yn ymateb i anghenion ac yn gweithio gyda chydweithwyr offthalmoleg i ystyried posibiliadau a datblygu llwybrau newydd.

Bydd rhai gwasanaethau angen i optometryddion ac offthalmolegwyr ysbyty rannu cyfrifoldeb am ofal cleifion unigol gan ddefnyddio'r un cofnod cleifion electronig. Bydd optometreg hefyd yn gallu rheoli mwy o gleifion yn annibynnol â gwell cyfathrebu gyda chydweithwyr mewn ysbytai a gwella mecanweithiau i gyfeirio/ailgyfeirio os bydd angen gwneud hynny.

• Rhagnodwyr Annibynnol Optometreg

Ym mis Mawrth 2021, roedd o leiaf 47 o optometryddion yng Nghymru sy'n gymwys i ragnodi ar hyn o bryd ac mae mwy wrthi'n cyflawni hyfforddiant ar hyn o bryd.

Yn ystod cyfyngiadau symud cyntaf Covid-19, roedd yr optometryddion hynny a chymwysterau rhagnodi annibynnol yn gallu rheoli cyflyrau llygaid mwy cymhleth ym maes gofal sylfaenol heb gyfeirio at y meddyg teulu am bresgripsiwn neu i ysbytai, er enghraifft wfeitis pen blaen aciwt.

Ers y cyfyngiadau symud cyntaf, mae rhai byrddau iechyd wedi contractio'r Gwasanaeth Rhagnodi Optometreg Annibynnol (IPOS), ond nid yw eraill wedi gwneud hynny. Felly, mae llwybrau aneffeithlon traddodiadol wedi dychwelyd, ac nid yw llawer o rhagnodwyr yn defnyddio'r sgîl hwn fel mater o drefn mwyach. Mae cleifion â phroblemau llygaid yn cael eu cyfeirio eto at feddygon teulu prysur neu adrannau achosion llygaid brys i ragnodi ar gyfer cyflyrau y mae'r optometrydd rhagnodi annibynnol yn gallu gwneud diagnosis ohonynt a'u rheoli.

Bydd rhagnodi annibynnol yn rhan o'r contract newydd gan ganiatáu i'r defnydd gorau i gael ei wneud o optometryddion rhagnodi annibynnol. Bydd sicrhau bod o leiaf un optometrydd gofal sylfaenol sy'n rhagnodwr annibynnol ym mhob clwstwr o fewn tair blynedd i gyhoeddi'r cynllun hwn yn creu lefel gyson o arweinyddiaeth ym maes rhagnodi meddyginiaethau. Bydd y rhagnodwyr annibynnol hyn yn datgloi capasiti ychwanegol ym maes gofal sylfaenol, gan ddarparu gwasanaethau i'r rhai â chyflyrau iechyd mewn ffordd sy'n canolbwyntio mwy ar y person a fydd yn sicrhau bod llai o bobl yn cael eu hatgyfeirio i ofal eilaidd neu feddygon teulu.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Byddwn yn sicrhau bod o leiaf 3 o optometryddion rhagnodi annibynnol ym mhob clwstwr o fewn 10 mlynedd fel y gellir darparu gwasanaethau uwch yn gyson ledled Cymru.

- **Gofal glawcoma**

Mae gan dros 100,000 o bobl orbwysedd ocwlar neu glawcoma yng Nghymru ar hyn o bryd, ac felly angen apwyntiadau adolygu yn flynyddol neu'n amlach. Dros yr 20 mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd achosion glawcoma yn cynyddu 44%, pobl sy'n dioddef o glawcoma yn cynyddu 18% a phobl sy'n dioddef o orbwysedd ocwlar yn y cynyddu 16% (4).

Ar hyn o bryd, mae optometryddion gofal sylfaenol yn chwarae rhan hanfodol o ran canfod achosion a hidlo atgyfeiriadau i nodi cleifion â glawcoma a chyflyrau cysylltiedig. Caiff y mwyafrif o atgyfeiriadau glawcoma i ofal eilaidd eu sbarduno gan optometryddion gofal sylfaenol yn dilyn archwiliadau llygaid mater o drefn.

Gall optometryddion â chymwysterau clinigol uwch a phrofiad perthnasol wneud diagnosis a monitro cleifion â glawcoma a chyflyrau cysylltiedig. Mae'r rhaid cyfateb y cymhwyster i gymhlethdod yr achos. Ym mis Mawrth 2021, mae gan 148 (20% o'r optometryddion yng Nghymru) Dystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma, mae gan 19 Uwch Dystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma ac mae gan lai na 5 Ddiploma Proffesiynol mewn Glawcoma.

Mae optometryddion sy'n hyfforddi am gymwysterau clinigol uwch ym maes glawcoma angen hyfforddiant o dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi yn briodol ac mae rhan o hyn fel rheol yn cynnwys sesiynau gydag offthalmolegydd ymgynghorol sy'n arbenigwr mewn glawcoma. Mae hyn yn digwydd mewn lleoliad gofal eilaidd fel rheol. Wrth i optometryddion ennill cymwysterau uwch a phrofiad priodol, gellir rheoli glawcoma a chyflyrau cysylltiedig gan optometryddion yn y gymuned heb atgyfeiriad i'r ysbyty, cyn belled ag y bo gan yr optometryddion gymwysterau clinigol uwch priodol a phrofiad perthnasol.

Yn y 3 blynedd nesaf, bydd gan o leiaf un ymarferydd ym mhob clwstwr y cymwysterau clinigol uwch i allu rheoli diagnosis a monitro yn annibynnol y cymhlethdod achos sy'n berthnasol i lefel ei gymhwyster. Gallai hyn gynnwys gorbwysedd ocwlar, amheuaeth o glawcoma neu glawcoma ongl agored cronig, ac mae'r olaf angen y lefel uchaf o gymhwyster, sef y Diploma mewn Glawcoma.

Yn y 10 mlynedd nesaf, bydd o leiaf tri optometrydd ym mhob clwster yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Math o lawdriniaeth laser yw Trabecwloplasti Laser Detholus (SLT) a ddefnyddir i ostwng pwysedd ocwlar mewnol mewn glawcoma. Fe'i defnyddir pan nad yw meddyginiaethau diferion llygaid yn gostwng y pwysedd yn ddigonol neu'n achosi sgil-ffeithiau sylweddol. Gellir hefyd ei ddefnyddio fel triniaeth gychwynnol i glawcoma. Wrth i reoli glawcoma ym maes gofal sylfaenol ddatblygu, byddwn yn penderfynu a ellid darparu SLT mewn gofal sylfaenol.

- **Dirywiad Macwlaidd Neo-fasgwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint (nAMD)**

Yng Nghymru, mae 25,300 o bobl yn byw gydag nAMD cam hwyr (3) a rhagwelir y bydd niferoedd achosion nAMD yn cynyddu 59% rhwng 2015 a 2035 (5). Mae nAMD gwlyb yn achosi colled golwg cyflym a pharhaol. Gellir ei drin gyda phigiadau yn uniongyrchol i'r llygad, ond mae'n rhaid rhoi'r rhain yn rheolaidd (bob 4-12 wythnos yn nodweddiadol) ac mae clinigau ysbyty yn aml yn cael trafferth yn cyd-fynd â'r amserlen driniaeth a argymhellir. Gan weithio gyda thimau offthalmoleg lleol, gall optometryddion ym maes gofal sylfaenol ymgymryd â'r piguadau hyn a lleihau'r baich ar wasanaeth llygaid ysbytai.

Mae Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn ymarfer optometreg gofal sylfaenol ar gyfer delweddu llygadol a chanfuwyd eisoes ei fod yn effeithiol o ran lleihau nifer yr atgyfeiriadau i wasanaeth llygaid yr ysbytai.

Bydd gwaith mireinio atgyfeiriadau nAMD yn cael ei wneud mewn practisau gofal sylfaenol gan optometryddion â Thystysgrif Broffesiynol mewn Retina Meddygol a mynediad at OCT. Bydd hyn yn atal cleifion rhag mynd i'r ysbyty yn ddiangen. Ym mis Mawrth 2021, roedd 71 o optometryddion yng Nghymru yn meddu ar y Dystysgrif Broffesiynol mewn Retina Meddygol.

Gellir hefyd monitro cleifion nAMD sefydlog mewn practisau cymunedol lleol yn agosach at gartrefi pobl. Mae optometryddion â Chymhwyster Uwch mewn Retina Meddygol a mynediad at OCT yn gallu cynnal asesiad clinigol a gwneud penderfyniad ynghylch a yw cyflwr claf yn sefydlog neu a oes angen iddo ddychwelyd at offthalmolegydd neu gael ei adolygu gan offthalmolegydd. Gall hyn ryddhau adnoddau yn yr ysbyty.

Gellir hyfforddi optometryddion i roi piguadau ocwlar mewnol ac mae sawl bwrdd iechyd yng Nghymru eisoes yn eu defnyddio yn y swyddogaeth hon. Mae bwrdd iechyd Aneurin Bevan hefyd wedi lleoli ystafell driniaeth nAMD mewn practis optometrig. Mae hyn yn golygu y gall cleifion gael eu piguadau ocwlar mewnol yn agosach at eu cartrefi yn eu cymunedau lleol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Yn y 3 blynedd nesaf, bydd o leiaf un optometrydd ym mhob clwstwr yn gallu mireinio atgyfeiriadau a monitro nAMD sefydlog.

Yn y 10 mlynedd nesaf, bydd o leiaf un practis optometrig ym mhob bwrdd iechyd yn gallu darparu triniaethau nAMD ym maes gofal sylfaenol.

- **Ocwloblasteg**

Namau anfalaen, heintus neu lidiol nad ydynt yn bygwth y golwg yw'r rhan fwyaf o lympiâu a bympiau ar amrantaau. Er bod llawer eisoes yn cael eu rheoli gan optometryddion gofal sylfaenol ac optegwyr lensys cyffwrdd achrededig, atgyfeirir llawer i wasanaeth llygaid ysbytai o hyd.

Mae treial gydag optometryddion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr offthalmoleg yn yr ysbyty mewn bod yn effeithiol o ran lleihau atgyfeiriadau ymhellach i'r grŵp hwn. Ar gyfer namau nad yw optometrydd yn hyderus i'w rheoli, mae'r optometrydd yn creu delwedd, ac mae'r offthalmolegydd yn gallu cynnig barn trwy rith-adolygiad yn y mwyafrif o achosion. Felly bydd llawer mwy o achosion yn cael eu rheoli ym maes gofal sylfaenol heb fod angen i'r claf fynd i'r ysbyty.

Dros y 3 blynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr offthalmoleg i alluogi rthith-adolygiadau i bob delwedd o lympiâu a bympiau ar amrantaau cyn atgyfeirio i wasanaeth llygaid ysbytai.

Gan nad yw systiau, calasa a namau eraill ar yr amrantaau yn cael unrhyw effaith ar olwg fel rheol, mae cleifion yn aml yn aros amser maith i gael mân lawdriniaethau. Yn llawer o'r ysbytai'r DU, mae optometryddion yn cyflawni'r mân lawdriniaethau hyn bellach.

Dros y 10 mlynedd nesaf, bydd o leiaf un optometrydd ym mhob bwrdd iechyd yn cynnig mân lawdriniaethau ym maes gofal sylfaenol.

- **Monitro hydrocsiclorocwin**

Cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr ganllawiau yn 2018, a ddiweddarwyd yn 2020 (6), yn argymhell y dylid monitro cleifion sy'n cymryd hydrocsiclorocwin ar sail hirdymor mewn ymgais i ganfod gwenwyndra'r retina yn gynnar a sicrhau cyn lleied â phosibl o niwed i'r retina. Nid oes unrhyw system fonitro gyson yn unman yng Nghymru hyd yma, ac mae cleifion yn dioddef niwed oherwydd hyn.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Rydym yn bwriadu sefydlu system sy'n dilyn canllawiau Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, gan wneud defnydd o adnoddau gwasanaethau llygaid cymunedol ac ysbytai. Bydd system genedlaethol Cymru gyfan yn cynnig rhwyd diogelwch ar gyfer yr holl gleifion sy'n cymryd hydrocsiclorocwin yng Nghymru. Bydd timau optometreg yn cymryd delweddau a bydd optometryddion sydd â chymwysterau a phrofiad priodol yn archwilio'r delweddau ac yn nodi anormaleddau yn gysylltiedig â gwenwyndra hydrocsiclorocwin sydd angen adolygiad offthalmoleg.

Yn y tair blynedd nesaf, bydd o leiaf un practis gofal sylfaenol ym mhob bwrdd iechyd yn cymryd rhan ym mhroses Monitro hydrocsiclorocwin Cymru gyfan.

• **Lensys cyffwrdd arbenigol**

Mae clinigwyr, y sector gwirfoddol, rheolwyr byrddau iechyd a chleifion wedi codi pryderon bod gwahanol brotocolau, a gwasanaeth anghyson ac annheg yng Nghymru i gyflenwi lensys cyffwrdd sy'n glinigol angenrheidiol ar gyfer cyflyrau cornbilen fel ceratoconws.

Ers 2019, mae cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gallu mynychu practisau optometreg gofal sylfaenol, yn hytrach na gwasanaeth llygaid ysbytai ar gyfer rhywfaint o ôl-ofal lensys cyffwrdd arbenigol.

Yn y 3 blynedd nesaf, bydd o leiaf un optometrydd neu optegydd lensys cyffwrdd gofal sylfaenol yn darparu apwyntiadau gosod ac ôl-ofal lensys cyffwrdd ym mhob clwstwr. Bydd hyn yn creu lefel gyson o ddarpariaeth ledled Cymru.

• **Proffion golwg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn fwy tebygol o fod â phroblem golwg difrifol ac mae sgrinio llygaid traddodiadol mewn ysgolion arbennig yn aneffeithiol wrth ganfod problemau golwg plant ag anableddau dysgu (7). Canfu astudiaeth yng Nghymru 7 mlynedd yn ôl nad oedd 4 o bob deg disgybl mewn Ysgolion Arbennig erioed wedi cael prawf golwg ac roedd hanner y plant a brofwyd angen sbectols. Daeth yr awduron i'r casgliad bod angen brys am wasanaeth optometrig yn yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a phobl ifanc mewn ysgolion arbennig.(8)

Bydd optometryddion yn archwilio llygaid disgyblion, yn canfod unrhyw broblemau golwg ac yn rhagnodi sbectols yn ôl yr angen. Mae optegwyr sy'n cyflenwi yn mesur ar gyfer sbectols sydd eu hangen ac yn eu gosod, ac yn gwneud atgyweiriadau a gwaith dilynol i sicrhau bod plant yn gwisgo eu sbectols yn llwyddiannus.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Bydd angen sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu ysgol yng Nghymru, sydd ag ADY ac nad yw'n gallu cyrchu Llwybr Gweledigaeth Plant Safonol Cymru oherwydd anabledd corfforol, anabledd dysgu, ystyriaethau ymddygiad, neu ystyriaethau llesiant, e.e. cadair olwyn fawr nad yw'n gallu cael mynediad at gerbyd teulu safonol, yn cael cynnig prawf golwg blynyddol yn yr ysgol o fewn tair blynedd a fydd yn sicrhau bod y grŵp bregus hwn yn gallu gwireddu eu potensial llawn.

- **Retinopatheg Diabetig (DR) ac Oedema Macwlaidd Diabetig (DMO)**

Sefydlwyd gwasanaethau adolygu diabetig ym maes gofal sylfaenol ar gyfer cleifion â DR a DMO sefydlog. Gall optometryddion gyda'r cymwysterau priodol asesu cleifion a atgyfeirir gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn ogystal ag adolygu'r rhai nad ydynt yn ddigon difrifol i gael eu hatgyfeirio ymlaen i wasanaeth llygaid ysbyty ond nad ydynt yn ddigon sefydlog i gael eu rhyddhau yn ôl i Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Gan weithio yn agos gyda Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a gwasanaeth llygaid ysbyty, yn y 3 blynedd nesaf bydd o leiaf un practis ym mhob clwstwr yn gallu monitro cleifion â DR a DMO ym maes gofal sylfaenol.

- **Gofal cataract**

Mae optometryddion eisoes yn darparu asesiad a chwnsela cataract cyn llawdriniaeth cyn atgyfeirio a gofal ôl-lawdriniaeth ar ôl llawdriniaeth i'r rhan fwyaf o gleifion yng Nghymru o dan y GIG.

Mae asesiadau ar gyfer achosion cataract arferol, a gynhelir yn draddodiadol mewn apwyntiad ysbyty cyn y feddygfa cataract, yn cael eu cynnal mewn practis optometreg. Er mwyn lleihau amser yn yr ysbyty, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr offthalmoleg i symleiddio llwybrau cataract. Gall hyn gynnwys biometreg mewn gofal sylfaenol.

Yn ystod llawdriniaeth cataract, tynnir y lens naturiol, a rhoddir lens blastig newydd y tu mewn i gapsiwl y lens. Mewn cyfran o gleifion, gall y capsiwl dewychu ar ôl llawdriniaeth a gall leihau'r golwg mewn rhai achosion. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen llawdriniaeth capsulotomi YAG. Triniaeth laser yw hon sy'n creu twll bach yng nghanol y capsiwl sy'n gwella golwg. Mewn llawer o ysbytai ble mae optometryddion bellach yn perfformio'r capsulotomiau laser hyn. Wrth i ddarpariaeth glinigol mewn gofal sylfaenol ddatblygu, byddwn yn penderfynu a ellid darparu capsulotomi YAG mewn gofal sylfaenol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Nod 2024

- Bydd rhagnodi annibynnol yn rhan o'r contract newydd a bydd o leiaf un optometrydd rhagnodi annibynnol yn gweithio ym mhob clwstwr.
- Bydd gan o leiaf un ymarferwyd ym mhob clwstwr y cymwysterau clinigol uwch sydd eu hangen i wneud diagnosis a monitro yn annibynnol y cymhlethdod achos sy'n berthnasol i lefel ei gymhwyster gan gynnwys gorbwysedd ocwlar, amheuaeth o glawcoma neu glawcoma ongl agored cronig.
- Bydd o leiaf un optometrydd ym mhob clwstwr yn gallu mireinio atgyfeiriadau a/ neu fonitro nAMD sefydlog ac yn gweithio'n agos gyda Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a gwasanaethau llygaid ysbyty, yn monitro rhai cleifion â DR a DMO.
- Bydd gofal lensys cyffwrdd arbenigol yn rhan o'r contract newydd a bydd o leiaf un optometrydd gofal sylfaenol neu optegydd lensys cyffwrdd sy'n darparu apwyntiadau gosod ac ôl-ofal lensys cyffwrdd ym mhob clwstwr.
- Bydd pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yng Nghymru, nad yw'n gallu cyrchu Llwybr Gweledigaeth Safonol Cymru oherwydd anabledd corfforol, anabledd dysgu, ystyriaethau ymddygiad neu ystyriaethau llesiant, e.e., cadair olwyn fawr na all gael mynediad at gerbyd teulu safonol yn cael cynnig prawf golwg yn yr ysgol bob blwyddyn, neu'n gynt os penderfynir ei fod yn angenrheidiol yn glinigol.
- Bydd rhith-adolygiad o bob delwedd o lympiau a bympiau ar amrantau cyn atgyfeirio i wasanaeth llygaid yr ysbyty.
- Bydd un practis optometreg gofal sylfaenol ym mhob bwrdd iechyd yn rhan o broses Monitro hydrosciclorocwin Cymru gyfan.
- Bydd llwybr cataract symlach ym mhob bwrdd iechyd, a all gynnwys biometreg mewn gofal sylfaenol.

Nod 2031


- Bydd o leiaf tri optometrydd rhagnodi annibynnol yn gweithio ym mhob clwstwr.
- Bydd gan o leiaf tri ymarferydd ym mhob clwstwr y cymwysterau clinigol uwch angenrheidiol i allu gwneud diagnosis a monitro yn annibynnol y cymhlethdod achos sy'n berthnasol i lefel ei gymhwyster gan gynnwys gorbwysedd ocwlar, amheuaeth o glawcoma neu glawcoma ongl agored cronig.
- Wrth i ofal glawcoma ym maes gofal sylfaenol ddatblygu, byddwn yn penderfynu a ellir darparu SLT ym maes gofal sylfaenol.
- Bydd o leiaf un practis optometrig ym mhob bwrdd iechyd yn gallu darparu triniaethau nAMD yn y gymuned.
- Mae gan bawb â chyflyrau llygaid a all gael eu rheoli gan offthalmolegwyr yn unig fynediad prydlon at wasanaethau llygaid ysbytai.
- Bydd un optometrydd ym mhob bwrdd iechyd yn cynnig mân lawdriniaethau ar gyfer lympiau a bympiau ar amrantau ym maes gofal sylfaenol.
- Byddwn yn penderfynu a ellid darparu capsulotomi YAG mewn gofal sylfaenol.

Thema 2

Gofal llygaid di-dor, yn gweithio fel un gwasanaeth offthalmig

Egwyddorion

- 4) Byddwn yn integreiddio mwy â meddygon teulu, fferyllwyr a chydweithwyr gofal sylfaenol eraill drwy sicrhau ein bod yn rhan annatod o weithio clwstwr.
- 5) Byddwn yn gweithio yn agos gyda chydweithwyr ym maes gofal eilaidd i ddarparu gwasanaeth gofal llygaid integredig sy'n canolbwyntio ar y claf, gan gynnwys rhannu cofnodion gofal llygaid cleifion.
- 6) Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes gofal eilaidd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i sicrhau bod pobl sy'n dioddef colled golwg yn derbyn gwasanaethau a chymorth adsefydlu prydlon a holistaidd.



Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

4 *Byddwn yn integreiddio mwy â meddygon teulu, fferyllwyr a chydweithwyr gofal sylfaenol eraill drwy sicrhau ein bod yn rhan annatod o weithio clwstwr.*

Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n rhan o faes iechyd a gofal ynghyd ar draws ardal ddaearyddol. Nod dyluniad y clwstwr yw hybu gwaith ar y cyd ar draws meddygfeydd teulu, fferyllfeydd, practisau deintyddol ac optometrig ac integreiddio gwasanaethau gofal sylfaenol gyda phartneriaid allweddol fel yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector. Ceir 64 o glystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru, pob un yn gwasanaethu poblogaethau rhwng 25,000 a 100,000 o gleifion.(9)

Deall anghenion ein poblogaethau lleol

Er gwaethaf baich clefyd llygaid yn ein cymunedau a brofir gan y ffaith mai offthalmoleg yw'r arbenigedd cleifion allanol prysuraf mewn ysbytai, ar hyn o bryd, nid yw iechyd y llygaid yn ymddangos ym mhroffiliau poblogaethau clwstwr sy'n cynnwys gwybodaeth am glefyd cronig.

Mae effeithiau iechyd cyffredinol sy'n dirywio a cholled golwg yn rhyngblethu ac yn gymhleth, yn enwedig i bobl hŷn. Er enghraifft, gall smygu, gordewdra, diabetes, gorbwysedd, strôc, anghenion dysgu ychwanegol a sglerosis ymledol i gyd effeithio ar iechyd y llygaid a golwg. Mae pobl â namau ar eu golwg yn fwy tebygol o gwmpo, o fod â llai o symudedd, o fod wedi'u hynysu ac o ddatblygu iselder o'u cymharu â'r rhai o'r un oedran heb nam ar eu golwg.

Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall clystyrau ddeall a chael mynediad at anghenion iechyd llygaid poblogaethau lleol ac anghenion adsefydlu y rhai â nam ar eu golwg. Felly, bydd hyn yn galluogi practisau optometreg i weithio gyda chontractwyr gofal sylfaenol eraill a sefydliadau lleol i ddarparu a chysylltu pobl ag amrywiaeth eang o ofal a chymorth mewn cymunedau lleol i ddiwallu eu hanghenion iechyd a llesiant.

Optometryddion fel rhan o broses gwneud penderfyniadau clystyrau

Cydnabyddir bod clystyrau dan arweinyddiaeth meddygon teulu yn bennaf ar hyn o bryd ac mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r newid i ofynion cytundebol sy'n ei gwneud yn orfodol i feddygfeydd teulu gymryd rhan. Yn fwy diweddar, mae hyn hefyd wedi cael ei ymestyn o fferyllfeydd.

Wrth i glystyrau barhau i esblygu, er mwyn gwireddu dyheadau'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru, bydd angen i optometreg gymryd rhan weithredol fel partneriaid cyfartal a rhai sy'n

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

gwneud penderfyniadau o ran gofal llygaid ym mhob un o'r 64 clwstwr.

Ein huchelgais yw i optometreg gael ei gynnwys mewn clystyrau gofal sylfaenol ac y bydd eu llywodraethiant yn hwyluso llais cryf a phleidlais i ofal llygaid sylfaenol. Er mwyn sicrhau bod ein proffesiwn yn ymateb i'r her hon, bydd ein cynrychiolwyr clwstwr yn cael eu talu am eu hamser y tu allan i'r practis i fynychu cyfarfodydd.

Datblygu rhwydweithiau optometreg i wella gweithio clwstwr

Bydd timau optometreg yn ceisio gweithio yn agosach gyda'n cydweithwyr gofal iechyd mewn clystyrau ledled Cymru i weithredu cynllun adfer ar ôl Covid a helpu i wneud y newid i reolaeth gynyddol o broblemau llygaid aciwt a chronig yn y lleoliad gofal sylfaenol optometrig yn haws. Hefyd, byddwn yn gweithio i sicrhau bod 'pob cysylltiad yn cyfrif' a chyfeirio cleifion at wasanaethau iechyd lleol eraill ac adeiladu ar y cysylltiadau cryf sydd gennym eisoes gyda gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol drwy'r gwasanaethau adsefydlu golwg gwan.

I gyflawni hyn, rydym yn dymuno i optometryddion mewn ardal clwstwr allu dod at ei gilydd mewn rhwydwaith er budd cydweithredu, i ymgysylltu â phoblogaethau lleol ac i ddarparu mandad cryfach ar gyfer optometreg. Byddai'r rhwydweithiau yn fannau lle byddai'r agweddau masnachol ar bractisau optometreg yn cael eu rhoi o'r neilltu, i wel ei gilydd llai fel cystadleuaeth ac yn fwy fel cymuned o weithwyr gofal llygaid proffesiynol sy'n cydweithio i sicrhau bod gofal yn cael ei gydgyssylltu yn well yn lleol i hybu llesiant unigolion yn eu cymunedau. Byddai'r rhwydweithiau lleol hefyd yn cynnig lle ar gyfer cyd-gymorth a thrafodaeth o faterion cyffredin.

Mae Covid eisoes wedi sbarduno dechreuadau y newid hwn i feddylfryd ac ymarfer. Mae gan lawer o ardaloedd clwstwr grwpiau WhatsApp neu e-bost prysur erbyn hyn lle mae practisau optometreg mewn ardal yn cael gwybodaeth ddiweddaraf a rennir am gyfarpar diogelu personol, gwasanaethau ysbyty a gofal sylfaenol, gwasanaethau optometreg rhagnodi annibynnol, brechiadau, gofal cartref neu ddehongliad o ganllawiau.

Gallai gofod cwmwl ar-lein hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng y rhai yn y rhwydweithiau lleol, a gallai gynnwys adnoddau gwybodaeth i gleifion, gwybodaeth am anghenion a gwasanaethau iechyd lleol ac enghreifftiau o arfer da o ardaloedd eraill. Bydd cynrychiolwyr optometreg clwstwr yn gweithio yn agos gyda'i gilydd ledled Cymru i alluogi arfer gorau a chynlluniau arloesol gael eu rhannu a'u cyflwyno yn genedlaethol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Bydd cynrychiolwyr clwstwr yn gweithio yn rhagweithiol ac yn gydweithredol ag arweinwyr clwstwr i sicrhau bod anghenion y poblogaethau lleol yn cael eu cynrychioli yn briodol ac yn cynnig adborth i'w Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol. Bydd gan Bwyllgorau Optegol Rhanbarthol swyddogaeth bwysig i helpu i rannu arfer da.

Trefnu ein sgiliau gofal llygaid ar lefel clwstwr

Byddwn yn annog cydweithrediad rhyngbroffesiynol ar gyfer y rheolaeth fwyaf priodol o gleifion hyd yn oed pan fydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i glaf fynd i wahanol bractis ar gyfer darpariaeth ei ofal. Fel hyn, byddwn yn gallu defnyddio ein cymwysterau uwch i reoli carfan fawr o gleifion yn well ym maes gofal sylfaenol heb fod angen atgyfeirio i ofal eilaidd yn enwedig gan ddefnyddio rhagnodi annibynnol ac ym meysydd ocwloblasteg, gofal llygaid aciwt, glawcoma, gofal cataract, lensys cyffwrdd arbenigol a retina meddygol fel y disgrifir yn 3).

Bydd gweithwyr optometreg proffesiynol yn gallu atgyfeirio yn electronig at optometryddion arbenigol ym maes gofal sylfaenol i osgoi atgyfeiriadau i adrannau llygaid ysbytai. Bydd hyn yn caniatáu i fwy o gleifion gael eu rheoli yn agosach at eu cartrefi. Bydd optometryddion yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth o faes gofal eilaidd i sicrhau y bydd y cleifion hynny y mae modd eu rheoli y tu allan i ysbyty yn cael eu rheoli y tu allan i ysbyty tra bod y rhai sydd angen atgyfeiriad ymlaen yn cael eu gweld gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol yn y lleoliad mwyaf priodol.

Nod 2024

- Bydd yn orfodol i optometreg gael ei gynnwys mewn clystyrau gofal sylfaenol.
- Bydd llywodraethiant clystyrau yn galluogi llais cryf i optometreg mewn clystyrau.
- Bydd ein cynrychiolwyr clwstwr yn cael eu talu am eu hamser y tu allan i'r practis i fynychu cyfarfodydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Bydd optometreg yn gweithio gyda chydweithwyr gofal eilaidd i sicrhau nad yw'n ofynnol i'r cleifion hynny y gellir gofalu amdanynt yn eu clwstwr fynd i glinigau gofal eilaidd lle gellir defnyddio sgiliau gofal sylfaenol.

Nod 2031

- Bydd asesiadau anghenion iechyd yn adrodd ar anghenion iechyd llygaid poblogaethau lleol ac anghenion adsefydlu'r rhai â nam ar eu golwg
- Rhwydwaith optometreg ar waith ym mhob ardal clwstwr i gydgysylltu gofal llygaid yn lleol a chynnig lle ar gyfer cymorth ar y cyd a thrafodaeth o faterion cyffredin.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

5

Byddwn yn gweithio yn agos gyda chydweithwyr ym maes gofal eilaidd i ddarparu gwasanaeth gofal llygaid integredig sy'n canolbwyntio ar y claf, gan gynnwys rhannu cofnodion gofal llygaid cleifion.

Byddwn yn gweithio i feithrin cysylltiadau gweithio agosach gyda'n cydweithwyr gofal eilaidd i weithio fel un gwasanaeth offthalmig, gan ddarparu gofal llygaid di-dor.

Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth gref yn y grwpiau amrywiol a pherthnasol fel y Grwpiau Cydweithredol Gofal Llygaid a gwahanol 'Grwpiau Llywio' i helpu i gyflawni hyn.

Bydd optometreg yn gweithio i fod ar flaen y gad o ran cymryd rhan mewn syniadau a systemau newydd i sicrhau y darperir yr holl ofal priodol ar lefel clwstwr a bod unrhyw ofal sydd ei angen mewn amgylchedd ysbyty yn cael ei ategu gan gymaint o wybodaeth ddiagnostig â phosibl.

Cofnod cleifion electronig (EPR): Gwella cyfathrebu a lleihau dyblygu

Rydym yn ymwybodol nad yw systemau mewn ysbytai yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un modd. Mae ail-fodelu gwasanaethau gofal llygaid i alluogi gofal sylfaenol i reoli a monitro mwy o gleifion yn ddiogel yn cael ei gefnogi gan seilwaith digidol, gan ddefnyddio cofnod cleifion electronig i hwyluso atgyfeirio a gofal a rennir.

Bydd cofnod cleifion electronig yn galluogi gweithwyr gofal sylfaenol ac eilaidd proffesiynol i rannu cofnodion cleifion mewn amser real. Bydd optometryddion ym maes gofal sylfaenol yn gallu adolygu'r cofnod clinigol a luniwyd yn yr ysbyty, creu atgyfeiriad neu ddiweddaru cofnodion ym maes gofal sylfaenol (gan gynnwys lanlwytho canlyniadau profion diagnostig). Bydd offthalmolegydd, nyrs, optometrydd neu orthoptydd yr ysbyty yn gallu edrych ar yr atgyfeiriad gofal sylfaenol, adolygu cofnod clinigol a luniwyd ym maes gofal sylfaenol, rhith-adolygu cofnod y claf a/ neu ddiweddaru cofnodion yn yr ysbyty. Bydd y broses dwy ffordd hon yn lleihau dyblygu, yn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau clinigol ac yn creu lle diogel ar gyfer cyfathrebu mwy cyfoethog a phrydlon.

Nod 2024

- Bydd pob practis optometreg a phob gwasanaeth llygaid ysbyty yng Nghymru yn defnyddio cofnod cleifion electronig ar gyfer atgyfeirio a rhannu cofnodion cleifion.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

6

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes gofal eilaidd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i sicrhau bod pobl sy'n dioddef colled golwg yn derbyn gwasanaethau a chymorth adsefydlu prydlon a holistaidd.

Cysylltiadau cryfach â gweithwyr adsefydlu, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector

Rydym yn falch o'n gwasanaeth adsefydlu gofal sylfaenol sy'n arwain y byd ar gyfer pobl â cholled golwg yng Nghymru, sydd ar gael ym mhob tref fach a/ neu stryd fawr. Rydym wedi ymrwmo i gryfhau'r cysylltiadau yr ydym wedi eu datblygu gyda gweithwyr adsefydlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector sy'n caniatáu i ni gynnig neu gyfeirio at amrywiaeth eang o atebion, gofal a chymorth i bobl â nam ar eu golwg yn eu cymunedau lleol.

Ehangu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru

Bydd darpariaeth Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn cael ei chynyddu i sicrhau mynediad i'r holl gleifion sydd angen y gwasanaeth yn agos at eu cartrefi eu hunain, neu ynddynt. Mae grwpiau cleifion a sefydliadau trydydd sector wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno i bob practis optometreg ddarparu'r gwasanaeth. Bydd pob practis ac ymarferydd (optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi) sy'n dymuno darparu gwasanaethau adsefydlu golwg gwan ym maes gofal sylfaenol yn gallu gwneud hynny.

Bydd addysg yn cael ei darparu i ymarferwyr gofal llygaid, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gofal eilaidd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, i sicrhau eu bod wedi'u hysbysu yn llawn o ran yr hyn sydd gan y gwasanaeth i'w gynnig. Mae sefydliadau trydydd sector a grwpiau cleifion yn awyddus i weithio gyda ni i sicrhau y cynigir atgyfeiriad i'r gwasanaeth i unrhyw un sy'n dioddef colled golwg yng Nghymru.

Byddwn yn nodi aelod o staff ym mhob practis i gadw gwybodaeth am wasanaethau lleol a chenedlaethol i bobl â nam ar eu golwg yn gyfredol ac i fod yn bwynt cyswllt i gleifion rhwng apwyntiadau.

Ardystio pobl fel rhai â nam ar eu golwg ym maes gofal sylfaenol

Nid yw llawer o bobl a allai fod wedi'u cofrestru fel rhai sydd â nam ar eu golwg yng ngofal offthalmolegwyr yng ngwasanaeth llygaid yr ysbyty, gan nad oes modd trin eu cyflwr llygaid. Yn hytrach, rheolir y cleifion hyn gan wasanaethau optometreg gofal sylfaenol. Ar hyn o bryd yng Nghymru, pan fydd eu golwg yn cyrraedd lefel o golled golwg sy'n rhoi hawl iddynt

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

gofrestru, mae ymarferwyr Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn eu hatgyfeirio i wasanaeth llygaid yr ysbyty gan mai dim ond offthalmolegwyr ymgynghorol sy'n ardystio pobl fel rhai sy'n gymwys i fynd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Gan fod pobl â cholled golwg yn aml yn hŷn ac yn ei chael yn anodd teithio i'r ysbyty, nid yw llawer a allai fod ar y gofrestr arni mewn gwirionedd. Hefyd, mae'r rhai sy'n fodlon cael eu hatgyfeirio i'r ysbyty yn dioddef amseroedd aros hynod faith a gallent fod yn colli allan ar fanteision a chymorth.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod optometryddion sydd wedi'u hachredu i ddarparu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn gallu penderfynu pan fydd angen ardystio rhywun â nam ar eu golwg (10).

Bydd ymarferwyr golwg gwan cymwys sy'n ardystio pobl â nam ar eu golwg yn sicrhau cofrestriad prydlon, a thrwy hynny yn dileu'r angen i gael eu hatgyfeirio at wasanaeth llygaid yr ysbyty mewn llawer o achosion. Bydd hyn yn rhyddhau apwyntiadau i bobl sydd â chyflyrau llygaid y mae'n rhaid iddynt gael eu gweld gan offthalmolegydd.

Nod 2024

- Bydd gennym gysylltiadau cryfach â gweithwyr adsefydlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector ganiatáu i ni gynnig, neu gyfeirio at amrywiaeth eang o atebion, gofal a chymorth i bobl â nam ar eu golwg yn eu cymunedau lleol.
- Bydd pob practis ac ymarferydd (optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi) sy'n dymuno darparu gwasanaethau adsefydlu golwg gwan ym maes gofal sylfaenol yn gallu gwneud hynny.
- Byddwn yn nodi aelod o staff ym mhob practis sy'n darparu'r gwasanaeth golwg gwan i gadw gwybodaeth am wasanaethau i bobl â nam ar eu golwg yn gyfredol ac i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer cleifion rhwng apwyntiadau.
- Bydd optometryddion golwg gwan cymwys yn ardystio bod gan bobl nam ar eu golwg i sicrhau cofrestriad prydlon.

Nod 2031

- Mae'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl â cholled golwg yn gwybod am y gwasanaeth adsefydlu gofal gwan gofal sylfaenol ac yn cynnig atgyfeiriad prydlon at y gwasanaeth i bawb sydd ei angen.
- Bydd optometryddion golwg gwan cymwys yn ardystio bod gan bobl nam ar eu golwg i sicrhau cofrestriad prydlon.

Thema 3

Datblygu'r gweithlu optometreg

Egwyddorion

- 7) Byddwn yn creu hyfforddiant o ansawdd uchel ledled Cymru cyn ac ar ôl cofrestru

Byddwn yn defnyddio'r hyfforddiant a'r cymwysterau uwch yr ydym

- 8) wedi eu cwblhau ac yn parhau i ddatblygu ym meysydd rhagnodi annibynnol, retina meddygol, glawcoma, cataract, golwg gwan a gofal llygaid aciwt i reoli mwy o gleifion yn ddiogel yn agosach at eu cartrefi.

- 9) Byddwn yn datblygu ein timau i gynorthwyo gwelliannau i iechyd a llesiant i genedlaethau pobl Cymru yn y dyfodol.



Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

7

**Byddwn yn creu hyfforddiant o ansawdd uchel ledled Cymru
cyn ac ar ôl cofrestru**

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi cwblhau adolygiad Strategol Addysg ar gyfer optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi yn ddiweddar ac wedi gwneud argymhellion yn ddiweddar.

Dyma'r prif argymhellion:

- Bydd angen i brifysgolion adolygu eu cwricwlwm i adlewyrchu gofynion sy'n newid o ymarfer optometreg, gyda mwy o bwyslais ar leoliadau, monitro a rheoli cyflyrau llygaid, model mwy clinigol a phrofiad cynharach mewn practis o ofal uniongyrchol i gleifion.
- Bydd un darparwr atebol i'r pwynt cofrestru.
- Ceir pwyslais ar ganlyniadau rhaglenni addysg sy'n darparu optometryddion. Bu'r pwyslais ar gymwyseddau yn y gorffennol.
- Bydd proses gymeradwyo gwbl newydd i unrhyw ddarparwr addysg newydd ar gyfer cyrsiau cyflenwi ac optometreg.

Hyfforddiant optometreg israddedig

Mae prifysgolion yn adolygu eu cwricwlwm israddedig i adlewyrchu'r gofynion sy'n newid o ymarfer optometreg, gyda mwy o bwyslais ar fonitro a rheoli cyflyrau llygaid, model mwy clinigol a phrofiad cynharach mewn practis o ymgysylltu a gofal uniongyrchol i gleifion.

Bydd y cwricwlwm cyn-gymhwyso newydd hefyd yn adlewyrchu cwrdd ymarfer newydd yng Nghymru a bydd darparwyr yn cael eu hariannu yn unol â darparwyr gofal iechyd eraill i sicrhau darpariaeth o ansawdd.

Mae newidiadau i'r cwricwlwm israddedig yn golygu y bydd optometreg mewn sefyllfa ddelfrydol i weddnewid llwybrau gofal llygaid ymhellach a bodloni egwyddorion 'Cymru Iachach'. Mae'r cyfle amserol hwn yn golygu y gallwn sicrhau pan fydd optometryddion yn cymhwyso yng Nghymru y byddant yn gallu darparu holl elfennau craidd y contract optometreg gofal sylfaenol newydd o'r diwrnod cyntaf, gyda sgiliau mewn uwch ymgynghori sy'n canolbwyntio ar y person, gofal cartref, adsefydlu gofal gwan, gofal llygaid aciwt, gofal cataract cyn ac ar ôl llawdriniaeth, gofal glawcoma a retina meddygol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Ceir cyfnod rhagarweiniol maith i hyn, gan na fydd newidiadau sy'n cael eu cynllunio nawr i'w gweld yn y rhai sy'n graddio tan 2027.

Bydd darparwyr yn hwyluso myfyrwyr i dreulio mwy o amser mewn lleoliadau mewn amrywiaeth o wahanol bractisau, gan sicrhau bod myfyrwyr optometreg yn cael eu hamlygu i gyfleoedd dysgu bywyd go iawn sy'n ategu eu haddysg yn y brifysgol.

Bydd darparwyr lleoliadau wedi'u paratoi'n briodol, ac yn cael cefnogaeth yn eu rôl. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi addysg yn y lleoliad clinigol yn unol â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill i sicrhau lleoliadau o ansawdd a'r amlygiad i ystod briodol o achosion clinigol.

Hyfforddiant Optegydd sy'n Cyflenwi

Yn y 2 flynedd nesaf, bydd y cwricwlwm ar gyfer optegwyr sy'n cyflenwi yn cael ei adolygu hefyd i sicrhau bod darparwyr addysg yn darparu'r safonau newydd ar gyfer ymarfer a amlinellir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol.

Y cwrs Diploma yw'r cymhwyster sylfaenol ar gyfer optegwyr sy'n cyflenwi. Mae gan optegwyr sy'n cyflenwi opsiynau gyrfaol lluosog wedyn gan gynnwys cyflenwi, cyflenwi arbenigol, rheoli practis, arbenigo mewn gwaith lensys cyffwrdd a golwg gwan, neu ddewis cymhwyso fel optometrydd.



Bydd y maes llafur diwygiedig yn cynnwys y cynnig i ddarparu blociau adeiladu i hyn a fydd yn rhoi'r cyfle i optegwyr sy'n cyflenwi arbenigo mewn plygiant, pediatreg a delweddu a dehongli digidol.

Llwybrau datblygu optometreg ac optegwyr sy'n cyflenwi

Bydd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cyd-fynd â chwmpas ymarfer gyda chymorth cymheiriaid a mentora, gan sicrhau y bydd y gofynion datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u teilwra i'r gwasanaethau a'r gwaith y mae optometrydd neu optegydd sy'n cyflenwi unigol yn ei wneud. Efallai y bydd gofynion cytundebol yng Nghymru yn fwy manwl na

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

gofynion y Cyngor Optegol Cyffredinol i adlewyrchu'r cwmpas ymarfer ehangach.

Cefnogi optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi sydd newydd gymhwyso

Byddwn yn sicrhau rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ein hoptometryddion sydd newydd gymhwyso, dan arweiniad AaGIC, ag ymarfer myfyriol, mentora a chymorth. Bydd pob optegydd sy'n cyflenwi sydd newydd gymhwyso yn cael ei annog i dderbyn mentora strwythuredig gan gyfoedion profiadol.

Mentoriaeth a chymorth i optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi

Mae mentora yn hwyluso datblygiad proffesiynol parhaus trwy fod â rhwydwaith o optometryddion profiadol sy'n llywio optometryddion i ystyried eu cwmpas ymarfer ar gyfer gofynion datblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal â darparu cymorth a chyfarwyddyd. Bydd optometryddion yn cael eu cynorthwyo pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau clinigol ychwanegol ac, yn hollbwysig, yn galluogi iddynt fod yn fwy hyfedr o ran rheoli a derbyn risg glinigol.

Bydd y cymorth hwn yn cynnwys Mentor dynodedig wedi'i neilltuo, platfform ar-lein i greu portffolio a grŵp cymorth cymheiriaid.

Wrth i optegwyr sy'n cyflenwi ehangu eu cwmpas ymarfer, bydd yr angen i fentora optegwyr sy'n cyflenwi yn cael ei adolygu ymhellach.

Arweinyddiaeth a Llywodraethu Clinigol

Mae'n rhaid i weithwyr optometreg proffesiynol ddarparu arweinyddiaeth i'r bobl y maent yn gweithio â nhw ac i eraill. Mae'n rhaid bod sgiliau a hyfforddiant arweinyddiaeth wedi'u hymwreiddio ym mhob cam o'r llwybr gyrfaol optometreg, yn cychwyn ar lefel israddedig.

Byddwn yn datblygu cyfleoedd ôl-raddedig i gynorthwyo arweinwyr clinigol a llywodraethu ym maes optometreg i hyrwyddo a datblygu'r proffesiwn o ran darparu gofal cleifion diogel ac o ansawdd uchel.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Nod 2024

- Bydd prifysgolion yn adlewyrchu gofynion sy'n newid ymarfer optometrig mewn cyrsiau israddedig, gyda lleoliadau gwaith, pwyslais ar fonitro a rheoli cyflyrau llygaid, a model mwy clinigol.
- Bydd lleoliadau'n digwydd mewn ystod o leoliadau ymarfer, gan sicrhau bod myfyrwyr optometreg yn agored i gyfleoedd dysgu bywyd go iawn sy'n ategu eu haddysg yn y brifysgol.
- Bydd darparwyr lleoliadau ar gyfer optometryddion dan hyfforddiant yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu haddysgu ac yn cael eu hariannu yn unol â'r model meddygol i sicrhau lleoliadau gwaith o ansawdd a'r amlygiad angenrheidiol i gwmpas ehangach o achosion.
- Bydd datblygiad proffesiynol parhaus yn cyd-fynd â chwmpas ymarfer ar gyfer optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi.
- Bydd rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i'n hoptometryddion sydd newydd gymhwyso, dan arweiniad AaGIC, gydag ymarfer myfyriol, mentora a chymorth.
- Bydd pob optegydd sy'n cyflenwi sydd newydd gymhwyso yn cael ei annog i ymgymryd â mentora gan gyfoedion â phrofiad.
- Bydd sgiliau a hyfforddiant arweinyddiaeth yn cael eu hymwreiddio yn y cwricwlwm optometreg israddedigion newydd.
- Bydd optometreg yn cael ei integreiddio mewn rhaglenni arweinyddiaeth yn y GIG.

Nod 2031

- Pan fydd optometryddion yn cymhwyso, byddent yn gallu darparu holl elfennau craidd y contract optometreg gofal sylfaenol newydd yng Nghymru, gyda sgiliau mewn uwch ymgynghori sy'n canolbwyntio ar y person, gofal cartref, adsefydlu golwg gwan, gofal llygaid aciwt, gofal cataract cyn ac ar ôl llawdriniaeth, gofal glawcoma a retina meddygol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

8

Byddwn yn defnyddio'r hyfforddiant a'r cymwysterau uwch yr ydym wedi eu cwblhau ac yn parhau i ddatblygu i reoli mwy o gleifion yn ddiogel yn agosach at eu cartrefi.

Hyfforddiant a chymwysterau uwch i optometryddion

Bydd y genhedlaeth nesaf o optometryddion yn graddio gyda llawer o'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu cwrmpas ehangach o ymarfer. Efallai y bydd ôl-raddedigion yn dewis meysydd arbenigedd i ganolbwyntio arnynt ac yn adeiladu ar eu cwrmpas ymarfer, llawer yn dewis astudio ar gyfer cymwysterau proffesiynol uwch.

Yn y contract newydd, bydd cymwysterau uwch yn ffurfio system haenau o ddatblygiad proffesiynol. Bydd hyn yn hanfodol i fodloni'r nodau ar gyfer ail-fodelu gwasanaethau fel yr amlinellir yn 3) i reoli a thrin mwy o gleifion ym maes gofal sylfaenol. Felly, bydd cyfleoedd wedi'u hariannu i optometryddion sy'n dymuno parhau i ddatblygu eu cwrmpas ymarfer ar gael gyda chymwysterau uwch wedi'u comisiynu gan AaGIC. Bydd y pwyslais ar ragnodi annibynnol, glawcoma a retina meddygol i gychwyn ond bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn i sicrhau bod anghenion ac uchelgeisiau gwasanaeth yn cael eu diwallu a'u cyflawni.

Mae ennill cymwysterau uwch yn ei gwneud yn ofynnol i optometryddion ymgymryd â lleoliadau mewn adrannau llygaid ysbytai, gan ennill profiad o reoli achosion cymhleth, a datblygu perthynas gyda thîm yr ysbyty. Mae'r agwedd hon ar ddatblygiad yn hanfodol ar gyfer y ddarpariaeth lwyddiannus o wasanaethau gofal llygaid yn y dyfodol ac i gael gwared ar y rhwystrau rhwng optometreg ac offthalmoleg.

Yng Nghymru, dull unigryw o ymdrin â lleoliadau hyfforddi ar gyfer cymwysterau uwch fydd i optometryddion weithio yn yr ysbyty neu bractisau optometreg addysgu arbenigol ym maes gofal sylfaenol gyda contract GIG yn ystod eu lleoliad. Bydd cydgysylltydd lleoliad sy'n gweithio ym mhob ysbyty neu bractis optometreg addysg arbenigol ym maes gofal sylfaenol yn hwyluso'r lleoliadau ac yn sicrhau cymysgedd achosion clinigol briodol â rheoli cyfleusterau goruchwyllo priodol (gan gynnwys ystafelloedd ymgynghori).

Optegwyr sy'n cyflenwi

Gall optegwyr sy'n cyflenwi ddringo'r ysgol sgiliau drwy hyfforddiant, profiad a chymwysterau ychwanegol, sef cymwysterau lensys cyffwrdd, golwg gwan a chyflyrau llygaid mân.

Mae optegwyr sy'n cyflenwi wedi'u hyfforddi i arbenigo mewn dethol, gosod a chyflenwi sbectols a dyfeisiau optegol eraill. Wrth i gwmpas ymarfer optometreg gofal sylfaenol

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

newydd yng Nghymru, bydd lle i swyddogaethau gweddill y tîm ddatblygu hefyd.

Gallai hyfforddiant posibl yn y dyfodol i optegwyr sy'n cyflenwi gynnwys plygiant, rheoli myopia, delweddu, brysbennu, iechyd a llesiant, gosod lensys cyffwrdd arbenigol, a chyflenwi pediatrig ac anghenion arbennig.

Nod 2024

- Yn y contract newydd, bydd cymwysterau uwch yn ffurfio system haenau o ddatblygiad proffesiynol.
- Bydd cyfleoedd wedi'u hariannu i optometryddion sy'n dymuno parhau i ddatblygu eu cwrpas ymarfer ar gael gyda chymwysterau uwch mewn rhagnodi annibynnol, glawcoma a retina meddygol wedi'u comisiynu gan AaGIC.
- Bydd yr amrywiaeth o gymwysterau uwch sydd ar gael i optometryddion yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn diwallu ac yn cyflawni anghenion ac uchelgeisiau datblygol gwasanaethau.
- Bydd lleoliadau hyfforddi ar gyfer cymwysterau uwch ar gael i optometryddion mewn ysbytai neu bractisau optometreg addysgu arbenigol gyda chontract GIG yn ystod eu lleoliad.
- Bydd cynllun yn cael ei ddatblygu i amlinellu swyddogaeth optegwyr sy'n cyflenwi mewn timau gofal llygaid gofal sylfaenol yn y dyfodol a'r anghenion hyfforddi i hwyluso'r newid, a fyddai'n cael ei gefnogi gan AaGIC.

Nod 2031

- Bydd cymwysterau uwch ychwanegol ar gael i gefnogi'r holl flociau adeiladu sydd eu hangen ar optegwyr sy'n cyflenwi i ddatblygu mewn timau gofal llygaid sylfaenol fel y gallant weithredu ar ben eu trwydded yn eu meysydd arbenigol. Er enghraifft, golwg gwan, iechyd a llesiant, dadansoddi OCT, plygiant, rheoli myopia a gosod lensys cyffwrdd arbenigol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

9 *Byddwn yn datblygu ein timau i gynorthwyo gwelliannau i iechyd a llesiant i genedlaethau pobl Cymru yn y dyfodol.*

Llysgenhadon iechyd a llesiant

Helpu pobl i osgoi salwch y gellir ei atal a chadw'n iach yw un o'r heriau mwyaf sylweddol a wynebwr gan y system iechyd. Mae timau mewn practisau optometrig yn asedau iechyd cymunedol, wedi'u lleoli yn ffisegol yng nghalon poblogaethau lleol. Mae gan optometreg gofal sylfaenol dros 400 o bractisau ac mae llawer ar y stryd fawr. Maent mewn sefyllfa unigryw felly i fod yn rhan o'r gymuned leol sy'n darparu neu'n cyfeirio at wasanaethau atal neu wella iechyd.

Nid yw timau optometrig yn cael eu defnyddio yn ddigonol o ran darparu a chyfeirio at wasanaethau iechyd a llesiant. Bydd timau optometreg gofal sylfaenol yn gweithio gydag eraill yn eu clwstwr i ddarparu neu gyfeirio at wasanaethau lleol eraill fel y rhoddir cymaint o gymorth â phosibl i unigolion wneud penderfyniadau cytbwys am eu hiechyd. Mae optegwyr sy'n cyflenwi mewn sefyllfa berffaith i dreulio amser gyda chleifion a chymryd rhan mewn sgysiau sy'n hyrwyddo gwasanaethau iechyd a llesiant sydd ar gael i gleifion ond efallai nad ydynt yn ymwybodol ohonynt.

Bydd holl aelodau'r tîm optometrig sydd mewn swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion yn dod yn llysgenhadon iechyd a llesiant â sgiliau mewn hyfforddi iechyd, llythrennedd iechyd, newid ymddygiad fel eu bod yn gallu gwneud i bob cyswllt gyfrif i gleifion.

Nod 2024

- Bydd timau optometrig gofal sylfaenol yn gweithio gydag eraill yn eu clwstwr i ddarparu neu gyfeirio at wasanaethau iechyd a llesiant lleol eraill.

Nod 2031

- Bydd holl aelodau'r tîm optometrig sydd mewn swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion yn dod yn llysgenhadon iechyd i wneud i bob cyswllt gyfrif i gleifion.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021


Thema 4

Harneisio atebion technoleg ar draws y llwybrau cleifion integredig cenedlaethol

Egwyddorion

10) Byddwn yn digideiddio atgyfeiriadau ac yn rhannu cofnodion iechyd llygaid i gynyddu effeithlonrwydd, osgoi dyblygiad a gwella chyfathrebu a diogelwch cleifion.

11) Byddwn yn parhau i groesawu technolegau newydd i wella gofal neu brofiad cleifion.



Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

10

Byddwn yn digideiddio atgyfeiriadau ac yn rhannu cofnodion iechyd llygaid i gynyddu effeithlonrwydd, osgoi dyblygiad a gwella cyfathrebu a diogelwch cleifion

Cofnodion ac atgyfeiriadau cleifion electronig (OpenEyes)

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu meddalwedd OpenEyes i ddatblygu a gweithredu Cofnod Cleifion Electronig cenedlaethol ar gyfer pob adran lygaid (offthalmoleg) a phractis optometreg yng Nghymru.

Bydd offer mewn practisau optometrig yn cael eu

rhwydweithio ag adrannau llygaid ysbytai. Bydd hyn yn galluogi optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi asesu cleifion yn y practis ac yn diweddarau cofnod cleifion electronig yr ysbyty i alluogi meddyg ymgynghorol yr ysbyty i rith-adolygu cofnod y claf fel ei bod yn ofynnol i gleifion â chyflyrau llygaid cymhleth yn unig fynd i adrannau llygaid ysbytai. Byddwn yn gweithio gyda phob gweithgynhyrchydd offer i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau digidol i bractisau optometreg sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth gofal a rennir hwn.

Bydd Optometreg hefyd yn defnyddio'r Cofnod Cleifion Electronig ar gyfer atgyfeiriadau electronig at offthalmoleg, gwasanaethau meddygon teulu, optometryddion arbenigol neu optegwyr sy'n cyflenwi nawr ac, ymhen amser, i fferylliaeth, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Bydd hyn yn galluogi atgyfeirio electronig dwy ffordd i ddarparu gofal diogel a di-dor i gleifion gyda'r cleifion eu hunain yn gallu cyrchu eu cofnod eu hunain.

Archwilir y gallu i gysylltu â systemau rheoli arferion optometreg ac i hwyluso atgyfeirio trawsffiniol i ysbytai yn Lloegr.

Rhagnodi electronig

Bydd rhagnodi cyffuriau yn electronig yn elfen hanfodol o feddalwedd y Cofnod Cleifion Electronig a dylai alluogi optometryddion â chymwysterau uwch i rhagnodi yn electronig i gleifion hefyd i wella diogelwch gofal cleifion. Bydd system rhagnodi electronig ar y cwmwl yn anfon presgripsiynau yn electronig i'r fferyllfa gymunedol a nodir gan y claf.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Gwella ein deallusrwydd busnes i wella canlyniadau a diogelwch

Er mai'r defnydd pennaf o gofnodion cleifion electronig yw hysbysu gofal unigolyn yn uniongyrchol, gellid cyfuno data cleifion hefyd i gynnig cyfleoedd ar gyfer gwelliannau o ran darpariaeth gofal iechyd, canlyniadau, iechyd y boblogaeth a monitro diogelwch. Er enghraifft, mae gan offerynnau dadansoddi grymus newydd y potensial i werthuso canlyniadau o ran cywirdeb diagnostig a llwyddiant atgyfeiriadau.

Mynediad at gofnod iechyd yr unigolyn

Gall iechyd cyffredinol a meddyginiaethau rhywun effeithio ar ei iechyd llygaid a/ neu'r camau rheoli y gallai optometrydd eu hargymell. Byddai mynediad at Gofnod Iechyd Unigol cleifion yn cynnig crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol ochr yn ochr â rhestr gywir o feddyginiaethau presennol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i gontractwyr gofal sylfaenol eraill a byddai'n caniatáu sgysiau gwell gyda'n cydweithwyr gofal sylfaenol a darpariaeth o wybodaeth i wasanaeth llygaid yr ysbty os bydd atgyfeiriad. Byddai hefyd yn gwella diogelwch rhagnodi gan Optometryddion Rhagnodi Annibynnol.

Mynediad at gyfeiriad e-bost GIG

I wella cyfathrebu electronig rhwng gweithwyr gofal llygaid optometreg proffesiynol a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, bydd gweithwyr gofal iechyd optometreg proffesiynol yn cael cyfrif e-bost GIG unigol.

Nod 2024

- Bydd pob practis optometreg yn atgyfeirio cleifion i faes offthalmoleg, optometryddion arbenigol neu optegwyr sy'n cyflenwi a gwasanaethau meddygon teulu trwy atgyfeiriad electronig â chynlluniau i ymestyn hyn i fwy o wasanaethau.
- Bydd pob practis optometreg yn cael mynediad at gofnod offthalmoleg electronig a rennir i alluogi gofal a rennir am glefydau llygaid rhwng meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Bydd pob gweithiwr gofal llygaid optometreg proffesiynol yn cael cyfrif e-bost GIG.

Nod 2031

- Bydd gan bob practis optometrig fynediad at gofnodion meddygol a gofal cymdeithasol electronig perthnasol i ddarparu'r gofal gorau.
- Bydd cyfres o adroddiadau ar gael yn y Cofnod Cleifion Electronig i gynorthwyo gwelliannau i ganlyniadau a diogelwch cleifion.
- Bydd rhagnodi cyffuriau yn electronig ar gael i Optometryddion Rhagnodi Annibynnol ddarparu rheolaeth ddi-dor o gyflyrau.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

11

Byddwn yn parhau i groesawu technolegau newydd i wella gofal neu brofiad cleifion

Rhith-ymgyngoriadau

Dechreuodd maes optometreg ddefnyddio rhith-ymgyngoriadau yn ystod Covid-19. Er bod yr offer a'r gallu i fesur, chwyddo a/ neu ddolweddu yn graidd i reoli'r rhan fwyaf o gyflyrau llygaid, ceir mantais barhaus o ddefnyddio'r rhith-ymgyngoriadau ar gyfer rhai grwpiau cleifion a chyflyrau.

Bydd y defnydd o rith-ymgyngoriadau pan fyddant yn glinigol briodol yn cael ei ymwreiddio mewn ymarfer optometreg ac yn cael eu defnyddio rhwng cleifion ac hefyd rhwng optometreg a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ar gyfer cyfleustra a diogelwch cleifion.

Ap i hysbysu am ddigwyddiadau difrifol

Dylid hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch cleifion sy'n codi ym maes gofal iechyd i "sicrhau y gall dysgu ddigwydd" (11). Canllawiau GIG Cymru ar ddigwyddiadau diogelwch cleifion yw ei bod yn ofynnol i "bob sefydliad GIG hysbysu am bob digwyddiad diogelwch" (12), sy'n golygu y dylid hysbysu am bob digwyddiad sydd wedi codi mewn practis optometrig.

Byddwn yn gweithio gyda'r tîm 'Unwaith i Gymru' i hysbysu am ddigwyddiadau a phryderon diogelwch cleifion trwy System Adrodd Digwyddiadau Electronig genedlaethol i Fyrddau Iechyd. Bydd gwerthuso'r adroddiadau a gyflwynir yn caniatáu priodoliad o'r adroddiadau ar ddigwyddiadau sy'n codi ym maes optometreg gofal sylfaenol er mwyn hwyluso dysgu o'r digwyddiadau yr hysbyswyd amdanynt wrth ymarfer.

Offer

Mae'r proffesiwn optometrig wedi buddsoddi mewn offer diagnostig uwch ym maes gofal sylfaenol ers amser maith. Bydd defnydd cynyddol o angiograffeg OCT a delweddu OCT awtofflworoleuedd pen isaf ym maes gofal sylfaenol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn galluogi rheolaeth bellach o glefyd llygaid mewn practisau optometreg. Yn y dyfodol, bydd yn bwydo canlyniadau technolegau diagnostig o'r fath o feysydd delweddu a gweledol i systemau gofal eilaidd pan fo'n briodol gwneud hynny.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio offer o'r fath mewn ymarfer gofal sylfaenol i gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaeth cwbl integredig ar gyfer cyflyrau llygaid, e.e. biometreg fel rhan o'r

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

asesiad cyn llawdriniaeth ar gyfer llawfeddygaeth cataract.

Wrth i fwy o wasanaethau symud allan o ofal eilaidd, byddwn angen mwy o sgiliau ac offer ym maes gofal sylfaenol. Mae ardaloedd gwledig yn achosi heriau unigryw. Yn aml, mae ganddynt y sgiliau uwch gan fod ysbytai ymhell i ffwrdd, ond mae'n bosibl y bydd practisau yn agored ychydig ddiwrnodau yr wythnos yn unig, gydag ymarferwyr yn symud rhwng sawl lleoliad gwledig.

Gyda rhai cyflyrau, fel Monitro hydrocsiclorocwin, mae'r offer yn ddrud iawn a gallai fod yn anodd i bractisau gofal sylfaenol ei gyfiawnhau ar gyfer niferoedd mor fach o achosion. Mewn achosion o'r fath, byddwn angen dod o hyd i ffordd o gynorthwyo'r ddarpariaeth o offer angenrheidiol yn y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer cleifion, ar sail clwstwr neu fwrdd iechyd.

Sganio'r gorwel a gwthio'r ffiniau

Bydd practis optometrig gofal sylfaenol yn defnyddio'r technolegau diweddaraf ar gyfer pob agwedd ar ofal cleifion fel plygiant electronig ac argraffu 3D o sbectols i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac felly capasiti cynyddol ar gyfer asesu a rheoli anghenion llygaid a gofal iechyd claf.

Byddwn yn croesawu deallusrwydd artiffisial i ddarogan risg y claf unigol o glefyd llygaid a meddygol wrth i ganfyddiad cynnar ddarparu'r rheolaethllygaid a gofal iechyd gorau posibl i gleifion. Mae practisau optometreg eisoes yn buddsoddi mewn sganwyr Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i asesi risg cleifion o glefydau llygaid penodol. Bydd cyfleoedd i gysylltu data cleifion ar gyfer gwybodaeth ymchwil ehangach gyda chydysyniad cleifion a mesurau diogelu cyfrinachedd. Bydd Deallusrwydd Artiffisial hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cymorth ar gyfer brysbennu cleifion, , diagnosis a rheoli cyflyrau llygaid.

Byddwn yn croesawu technolegau sy'n monitro ac yn gwella gofal llygaid personol fel lensys cyffwrdd sy'n rhyddhau cyffuriau a hunanfonitro cleifion o bwysedd llygaid fel y gellir defnyddio Technoleg Gwybodaeth yn eang i ddarparu gofal cleifion mwy cyson.

Byddwn yn sicrhau bod gan bob ymarferydd gofal iechyd optometreg fynediad at y technolegau diweddaraf pa un a ydynt mewn practis neu yn y cartref i sicrhau bod gan

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Nod 2024

- Bydd offer diagnostig uwch mewn gofal sylfaenol yn galluogi rheoli clefyd y llygaid mewn arferion optometreg a bydd yn bwydo canlyniadau technolegau diagnostig o'r fath i systemau gofal eilaidd.
- Bydd y defnydd o rith-ymgyngoriadau pan fo'n glinigol briodol yn cael ei ymwreiddio mewn ymarfer optometrig.
- Gall optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi hysbysu am ddigwyddiadau a phryderon diogelwch cleifion trwy System Adrodd Digwyddiadau Electronig genedlaethol i fyrdau iechyd.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Cyfeiriadau

1. Llywodraeth Cymru. 2018. Cymru Iachach. Ar gael yn:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>
2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn:
<https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>
3. RNIB 2020. Offeryn Data Colli Golwg. Ar gael yn:
<https://www.rnib.org.uk/professionals/knowledge-and-research-hub/key-information-and-statistics/sight-loss-data-tool>
4. Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr. 2017. The Way Forward: Glaucoma, Ar gael yn:
<https://www.rcophth.ac.uk/wp-content/uploads/2015/10/RCophth-The-Way-Forward-Glaucoma-300117.pdf>
5. Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr. 2017. The Way Forward: Age-related Macular Degeneration and Diabetic Retinopathy, Ar gael yn: <https://www.rcophth.ac.uk/wp-content/uploads/2015/10/RCophth-The-Way-Forward-AMD-300117.pdf>
6. Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr. 2020. Hydroxychloroquine and Chloroquine Retinopathy: Recommendations on Monitoring. Ar gael yn: <https://www.rcophth.ac.uk/wp-content/uploads/2020/12/Hydroxychloroquine-and-Chloroquine-Retinopathy-Monitoring-Guideline.pdf>
7. Donaldson LA, Karas M O'Brien a D, Woodhouse JM. 2019. Findings from an opt-in eye examination service in English special schools. Is vision screening effective for this population? PLoS ONE 14(3): e0212733.
8. Woodhouse JM, Davies N, McAviney A, Ryan B. 2014. Ocular and visual status among children in special schools in Wales: the burden of unrecognised visual impairment. Archives of Disease in Childhood. 2014;99(6):500-4.
9. Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. 2018. Ar gael yn:
<http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/sitesplus/documents/1191/Strategic%20Programme%20for%20Primary%20Care%20WT%20%28Cym%29.pdf>
10. Bartlett R, Jones H, Williams G, Farewell D, Acton JH. 2021. Agreement between ophthalmologists and optometrists in the certification of vision impairment. Eye. 2021 Chwefror;35(2):433-440.
11. GIG. Learning from patient safety incidents. Available at <https://improvement.nhs.uk/resources/learning-from-patient-safety-incidents> GIG Cymru, guidance on the reporting and handling of serious incidents and other patient related concerns / no surprises: Ar gael yn <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Handling%20Serious%20Incidents%20Guidance1.pdf>

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Crynodeb o'r nodau

Nodau 2024

- Caiff pob plentyn sy'n aflwyddiannus mewn profion sgrinio golwg yn yr ysgol ei weld gan optometrydd a chaiff ei gyfeirio at ofal eilaidd dim os yw'n glinigol angenrheidiol.
- Mae llenyddiaeth i rieni a'r cofnod iechyd plant personol (llyfr coch) yn hyrwyddo pwysigrwydd plant yn mynychu practis optometrig yn rheolaidd a chyfeirio at optometryddion fel y gweithwyr proffesiynol i fynd atynt ar gyfer pryderon iechyd llygaid neu olwg.
- Cyflwyno contract newydd ar gyfer optometreg gofal sylfaenol â phwyslais ar ofal clinigol ledled Cymru gan ddod â gwasanaethau GOS, EHEW, cartref a golwg gwan ynghyd.
- Mae'r contract ar gyfer optometreg gofal sylfaenol yn cynnwys cyfres o wasanaethau gofal llygaid uwch sy'n galluogi mwy o gleifion i gael eu rheoli yn agosach at eu cartrefi, yn hytrach na chael eu cyfeirio i'r ysbyty.
- Mae llywodraethu wedi'i ddiweddarau ar gyfer gwasanaethau cartref yn galluogi pobl i gael gafael ar ofal llygaid brys a, llwybrau cyn/ar ôl llawdriniaeth gartref os na allant fynd i bractis optometreg.
- Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu yn electronig i alluogi gwybodaeth gweithgarwch, gweithlu a chapasiti am ofal sylfaenol i gael ei hadrodd i ddangosfwrdd byw.
- Bydd rhagnodi annibynnol yn rhan o'r contract newydd a bydd o leiaf un optometrydd rhagnodi annibynnol yn gweithio ym mhob clwstwr.
- Bydd gan o leiaf un ymarferwyd ym mhob clwstwr y cymwysterau clinigol uwch sydd eu hangen i wneud diagnosis a monitro yn annibynnol y cymhlethdod achos sy'n berthnasol i lefel ei gymhwyster gan gynnwys gorbwysedd ocwlar, amheuaeth o glawcoma neu glawcoma ongl agored cronig.
- Bydd o leiaf un optometrydd ym mhob clwstwr yn gallu mireinio atgyfeiriadau a/ neu fonitro nAMD sefydlog ac yn gweithio'n agos gyda Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a gwasanaethau llygaid ysbyty, yn monitro rhai cleifion â DR a DMO.
- Bydd gofal lensys cyffwrdd arbenigol yn rhan o'r contract newydd a bydd o leiaf un optometrydd gofal sylfaenol neu optegydd lensys cyffwrdd sy'n darparu apwyntiadau gosod ac ôl-ofal lensys cyffwrdd ym mhob clwstwr.
- Bydd pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yng Nghymru, nad yw'n gallu cyrchu Llwybr Gweledigaeth Safonol Cymru oherwydd anabledd corfforol, anabledd dysgu, ystyriaethau ymddygiad neu ystyriaethau llesiant, e.e., cadair olwyn fawr na all gael mynediad at gerbyd teulu safonol yn cael cynnig prawf golwg yn yr ysgol bob blwyddyn, neu'n gynt os penderfynir ei fod yn angenrheidiol yn glinigol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

- Bydd rhith-adolygiad o bob delwedd o lymphiau a bympiau ar amrantau cyn atgyfeirio i wasanaeth llygaid yr ysbyty.
- Bydd un practis optometreg gofal sylfaenol ym mhob bwrdd iechyd yn rhan o broses Monitro hydrosciclorocwin Cymru gyfan.
- Bydd llwybr cataract symlach ym mhob bwrdd iechyd, a all gynnwys biometreg mewn gofal sylfaenol.
- Bydd yn orfodol i optometreg gael ei gynnwys mewn clystyrau gofal sylfaenol.
- Bydd llywodraethiant clystyrau yn galluogi llais cryf i optometreg mewn clystyrau.
- Bydd ein cynrychiolwyr clwstwr yn cael eu talu am eu hamser y tu allan i'r practis i fynychu cyfarfodydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Bydd optometreg yn gweithio gyda chydweithwyr gofal eilaidd i sicrhau nad yw'n ofynnol i'r cleifion hynny y gellir gofalu amdanynt yn eu clwstwr fynd i glinigau gofal eilaidd lle gellir defnyddio sgiliau gofal sylfaenol
- Bydd pob practis optometreg a phob gwasanaeth llygaid ysbyty yng Nghymru yn defnyddio cofnod cleifion electronig ar gyfer atgyfeirio a rhannu cofnodion cleifion.
- Bydd gennym gysylltiadau cryfach â gweithwyr adsefydlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector ganiatáu i ni gynnig, neu gyfeirio at amrywiaeth eang o atebion, gofal a chymorth i bobl â nam ar eu golwg yn eu cymunedau lleol.
- Bydd pob practis ac ymarferydd (optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi) sy'n dymuno darparu gwasanaethau adsefydlu golwg gwan ym maes gofal sylfaenol yn gallu gwneud hynny.
- Byddwn yn nodi aelod o staff ym mhob practis sy'n darparu'r gwasanaeth golwg gwan i gadw gwybodaeth am wasanaethau i bobl â nam ar eu golwg yn gyfredol ac i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer cleifion rhwng apwyntiadau.
- Bydd optometryddion golwg gwan cymwys yn ardystio bod gan bobl nam ar eu golwg i sicrhau cofrestrriad prydlon.
- Bydd prifysgolion yn adlewyrchu gofynion sy'n newid ymarfer optometrig mewn cyrsiau israddedig, gyda lleoliadau gwaith, pwyslais ar fonitro a rheoli cyflyrau llygaid, a model mwy clinigol.
- Bydd lleoliadau'n digwydd mewn ystod o leoliadau ymarfer, gan sicrhau bod myfyrwyr optometreg yn agored i gyfleoedd dysgu bywyd go iawn sy'n ategu eu haddysg yn y brifysgol.
- Bydd darparwyr lleoliadau ar gyfer optometryddion dan hyfforddiant yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu haddysgu ac yn cael eu hariannu yn unol â'r model meddygol i sicrhau lleoliadau gwaith o ansawdd a'r amlygiad angenrheidiol i gwmpas ehangach o achosion.
- Bydd datblygiad proffesiynol parhaus yn cyd-fynd â chwmpas ymarfer ar gyfer optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

- Bydd rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i'n hoptometryddion sydd newydd gymhwyso, dan arweiniad AaGIC, gydag ymarfer myfyriol, mentora a chymorth.
- Bydd pob optegydd sy'n cyflenwi sydd newydd gymhwyso yn cael ei annog i ymgymryd â mentora gan gyfoedion â phrofiad.
- Bydd sgiliau a hyfforddiant arweinyddiaeth yn cael eu hymwreiddio yn y cwricwlwm optometreg israddedigion newydd.
- Bydd optometreg yn cael ei integreiddio mewn rhaglenni arweinyddiaeth yn y GIG.
- Yn y contract newydd, bydd cymwysterau uwch yn ffurfio system haenau o ddatblygiad proffesiynol.
- Bydd cyfleoedd wedi'u hariannu i optometryddion sy'n dymuno parhau i ddatblygu eu cwrmpas ymarfer ar gael gyda chymwysterau uwch mewn rhagnodi annibynnol, glawcoma a retina meddygol wedi'u comisiynu gan AaGIC.
- Bydd yr amrywiaeth o gymwysterau uwch sydd ar gael i optometryddion yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn diwallu ac yn cyflawni anghenion ac uchelgeisiau datblygol gwasanaethau.
- Bydd lleoliadau hyfforddi ar gyfer cymwysterau uwch ar gael i optometryddion mewn ysbytai neu bractisau optometreg addysgu arbenigol gyda contract GIG yn ystod eu lleoliad.
- Bydd cynllun yn cael ei ddatblygu i amlinellu swyddogaeth optegwyr sy'n cyflenwi mewn timau gofal llygaid gofal sylfaenol yn y dyfodol a'r anghenion hyfforddi i hwyluso'r newid, a fyddai'n cael ei gefnogi gan AaGIC.
- Bydd timau optometrig gofal sylfaenol yn gweithio gydag eraill yn eu clwstwr i ddarparu neu gyfeirio at wasanaethau iechyd a llesiant lleol eraill.
- Bydd pob practis optometreg yn atgyfeirio cleifion i faes offthalmoleg, optometryddion arbenigol neu optegwyr sy'n cyflenwi a gwasanaethau meddygon teulu trwy atgyfeiriad electronig â chynlluniau i ymestyn hyn i fwy o wasanaethau.
- Bydd pob practis optometreg yn cael mynediad at gofnod offthalmoleg electronig a rennir i alluogi gofal a rennir am glefydau llygaid rhwng meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Bydd pob gweithiwr gofal llygaid optometreg proffesiynol yn cael cyfrif e-bost GIG.
- Bydd offer diagnostig uwch mewn gofal sylfaenol yn galluogi rheoli clefyd y llygaid mewn arferion optometreg a bydd yn bwydo canlyniadau technolegau diagnostig o'r fath i systemau gofal eilaidd.
- Bydd y defnydd o rith-ymgyngoriadau pan fo'n glinigol briodol yn cael ei ymwreiddio mewn ymarfer optometrig.
- Gall optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi hysbysu am ddigwyddiadau a phryderon diogelwch cleifion trwy System Adrodd Digwyddiadau Electronig genedlaethol i fyrdau iechyd.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Nodau 2031

- Mae cleifion yn dewis practisau optometreg yn y lle cyntaf ar gyfer cymorth a chynghor ar faterion yn ymwneud â'r llygaid.
- Mae'r contract newydd ar gyfer optometreg gofal sylfaenol yn ddigon hyblyg i alluogi gwasanaethau presennol i gael eu haddasu ac i wasanaethau newydd gael eu datblygu, gan gadw i fyny â'r galw a datblygiadau i dechnoleg, triniaethau, a hyfforddiant.
- Caiff archwiliadau clinigol ac ymchwil lefel practis eu cynnal fel mater o drefn ym maes gofal llygaid sylfaenol.
- Bydd mesurau canlyniadau sydd o bwys i gleifion yn cael eu hymwreiddio mewn gofal clinigol optometrig mater o drefn.
- Bydd o leiaf tri optometrydd rhagnodi annibynnol yn gweithio ym mhob clwstwr.
- Bydd gan o leiaf tri ymarferydd ym mhob clwstwr y cymwysterau clinigol uwch angenrheidiol i allu gwneud diagnosis a monitro yn annibynnol y cymhlethdod achos sy'n berthnasol i lefel ei gymhwyster gan gynnwys gorbwysedd ocwlar, amheuaeth o glawcoma neu glawcoma ongl agored cronig.
- Wrth i ofal glawcoma ym maes gofal sylfaenol ddatblygu, byddwn yn penderfynu a ellir darparu SLT ym maes gofal sylfaenol.
- Bydd o leiaf un practis optometrig ym mhob bwrdd iechyd yn gallu darparu triniaethau nAMD yn y gymuned.
- Mae gan bawb â chyflyrau llygaid a all gael eu rheoli gan offthalmolegwyr yn unig fynediad prydlon at wasanaethau llygaid ysbytai.
- Bydd un optometrydd ym mhob bwrdd iechyd yn cynnig mân lawdriniaethau ar gyfer lymphiau a bympiau ar amrantau ym maes gofal sylfaenol.
- Byddwn yn penderfynu a ellid darparu capsulotomi YAG mewn gofal sylfaenol.
- Bydd asesiadau anghenion iechyd yn adrodd ar anghenion iechyd llygaid poblogaethau lleol ac anghenion adsefydlu'r rhai â nam ar eu golwg
- Rhwydwaith optometreg ar waith ym mhob ardal clwstwr i gydgyssylltu gofal llygaid yn lleol a chynnig lle ar gyfer cymorth ar y cyd a thrafodaeth o faterion cyffredin.
- Pan fydd optometryddion yn cymhwyso, byddent yn gallu darparu holl elfennau craidd y contract optometreg gofal sylfaenol newydd yng Nghymru, gyda sgiliau mewn uwch ymgynghori sy'n canolbwyntio ar y person, gofal cartref, adsefydlu golwg gwan, gofal llygaid aciwt, gofal cataract cyn ac ar ôl llawdriniaeth, gofal glawcoma a retina meddygol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

- Bydd cymwysterau uwch ychwanegol ar gael i gefnogi'r holl flociau adeiladu sydd eu hangen ar optegwyr sy'n cyflenwi i ddatblygu mewn timau gofal llygaid sylfaenol fel y gallant weithredu ar ben eu trwydded yn eu meysydd arbenigol. Er enghraifft, golwg gwan, lechyd a llesiant, dadansoddi OCT, plygiant, rheoli myopia a gosod lensys cyffwrdd arbenigol.
- Mae'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl â cholled golwg yn gwybod am y gwasanaeth adsefydlu gofal gwan gofal sylfaenol ac yn cynnig atgyfeiriad prydlon at y gwasanaeth i bawb sydd ei angen.
- Bydd optometryddion golwg gwan cymwys yn ardystio bod gan bobl nam ar eu golwg i sicrhau cofrestriad prydlon.
- Bydd holl aelodau'r tîm optometrig sydd mewn swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion yn dod yn llysgenhadon iechyd i wneud i bob cyswllt gyfrif i gleifion.
- Bydd gan bob practis optometrig fynediad at gofnodion meddygol a gofal cymdeithasol electronig perthnasol i ddarparu'r gofal gorau.
- Bydd cyfres o adroddiadau ar gael yn y Cofnod Cleifion Electronig i gynorthwyo gwelliannau i ganlyniadau a diogelwch cleifion.
- Bydd rhagnodi cyffuriau yn electronig ar gael i Optometryddion Rhagnodi Annibynnol ddarparu rheolaeth ddi-dor o gyflyrau.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Sut y cynhyrchwyd y ddogfen hon

Datblygwyd y ddogfen gan Bwyllgor Optometreg Cymru (WOC) mewn cydweithrediad ag Optometreg Cymru.

Rolau allweddol y prosiect

Arweinwyr Prosiect

Barbara Ryan a Bryn Jones – Cyd-gadeiryddion Pwyllgor Optometreg Cymru

Arweinwyr thema a gweithgorau

Thema 1: Rheoli mwy o gleifion ym maes gofal llygaid sylfaenol

Brian Borland, Sali Davis, Di Haines, Manon Haf

Thema 2: Gofal llygaid di-dor, yn gweithio fel un gwasanaeth offthalmig

Andy Britton, Rebecca Bartlett, Kate Hooper, Heddwyn Davies, Shona Redmond

Thema 3: Datblygu'r gweithlu optometreg

Cath McNamara, Nik Sheen, John Wild, Abi Crutcher, Zahra Rasheed

Thema 4: Harneisio atebion technoleg ar draws y llwybrau cleifion integredig cenedlaethol

Sharon Beatty, Paul Harries, Jennifer Park, James Morris, David Fisher

Aelodau Offthalmoleg Pwyllgor Optometreg Cymru

Mynychodd Gwyn Williams, Cadeirydd, a Rhianon Reynolds, Dirprwy Gadeirydd, Coleg Brenhinol Offthalmolegwyr Cymru, gyfarfodydd a thrafodaethau trwy gydol datblygiad y ddogfen.

Ymgynghoriad

Ymgynghorodd y pwyllgor ag aelodau'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r ddogfen hon.

Ymgynghoriad â'r optometryddion ac optegwyr dosbarthu yng Nghymru

Defnyddiwyd tri dull ymgynghori i geisio rhoi cymaint o gyfle â phosibl i'r proffesiwn gyflwyno eu barn a'u meddyliau ynghylch sut y bydd cleifion yn elwa ymhellach o sgiliau'r tîm optometreg yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf. Roedd hyn yn cynnwys arolwg ar-lein, cyfarfod ymgynghori ar-lein a phrosiect ymchwil ansoddol.

- **Arolwg Ar-lein**

Roedd arolwg ar-lein ar gael i'r proffesiwn am dair wythnos. Roedd yn gofyn pum cwestiwn yn ymwneud â'r prif themâu yr oedd Pwyllgor Optometreg Cymru yn eu hystyried yn bwysig. Derbyniwyd pedwar deg pump o ymatebion. Roedd pob un oni bai am un neu ddau yn cefnogi'r themâu a'r egwyddorion.

Adolygwyd yr holl ymatebion gan y Pwyllgor a gweithiodd yr Arweinwyr Thema i ymgorffori syniadau a safbwyntiau a fynegwyd gan y mwyafrif yn y ddogfen.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

- **Cyfarfod ymgynghori ar-lein**

Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein un noson ym mis Mawrth 2021 a gwahoddwyd optometryddion ac optegwyr sy'n cyflenwi i ddod i glywed am y prosiect a chael cyfle olaf i roi sylwadau arno. Cyflwynodd Arweinwyr Thema'r themâu a'r egwyddorion. Ar ôl cyflwyno pob thema, gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau. Roedd angen teipio'r ymatebion hyn.

Mynychodd cyfanswm o 135 o bobl, gan gynnwys rhai aelodau o Bwyllgor Optometreg Cymru. At ei gilydd, roedd y sylwadau'n cefnogi'r themâu a'r egwyddorion a amlinellwyd. Fodd bynnag, codwyd rhai pwyntiau defnyddiol. Cafodd yr holl sylwadau eu lawrlwytho a'u harbed, a diwygiwyd y ddogfen i ystyried y rhain.

- **Ymchwil Ansoddol**

Mae'r grŵp Iechyd Cyhoeddus Offthalmig, yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg, Prifysgol Caerdydd ac Optometreg Cymru wedi bod yn cynnal ymchwil i benderfynu sut y bydd gwasanaeth optometreg Cymru yn cael ei wella yn y dyfodol. Mae canfyddiadau rhagarweiniol y gwaith hwnnw wedi'u bwydo i mewn i ddatblygiad y ddogfen hon.

Amlinellir y prosiect a chrynodeb o'r canfyddiadau rhagarweiniol isod.

Beth rydyn ni'n ei wneud

Pwrpas y prosiect ymchwil hwn yw cael barn optometryddion sy'n gweithio yng Nghymru ar ddiogelwch cleifion, ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu ac ailstrwythuro'r proffesiwn, gan gynnwys rheoli mwy o gleifion mewn gofal sylfaenol. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig un i un manwl gydag ystod o optometryddion sy'n gweithio yng Nghymru, wedi'u haenu yn ôl rhyw, ethnigrwydd, lleoliad daearyddol, profiad, lleoliad gwaith a chymwysterau ychwanegol.

Canfyddiadau rhagarweiniol

Gwerthuswyd sampl ragarweiniol o 20 cyfweiliad a rhagwelir y bydd angen cyfweiliadau pellach i gyrraedd dirlawnder data. Dadansoddir canfyddiadau'r sampl lawn ymhellach gan ddefnyddio dulliau ansoddol a'u cyflwyno i'w cyhoeddi yn haf 2021.

Cwblhawyd ugain cyfweiliad, lle gwelwyd y canlyniadau canlynol:

- Roedd 19 o 20 o'r rhai a gyfwelwyd yn gefnogol iawn i reoli mwy o gleifion mewn gofal llygaid sylfaenol a fyddai wedi cael eu gweld mewn gofal eilaidd o'r blaen.
 - ✦ Mynegodd 14 o'r rhai a gyfwelwyd fod angen mwy o amser apwyntiad i ymgynghori â chleifion gofal sylfaenol i sicrhau diogelwch cleifion.
 - ✦ Amlygodd 17 o'r rhai a gyfwelwyd fod y pwysau o ganlyniad i amseroedd aros hir am apwyntiadau ysbyty yn effeithio ar ofal cleifion, gan achosi oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth cleifion.
- Nododd pob unigolyn y bydd hyfforddiant ac uwchsgilio pellach i'r proffesiwn yn hanfodol i ddyfodol optometreg.
 - ✦ Mynegodd 10 unigolyn yr awydd am fwy o leoedd hyfforddi wedi'u hariannu.
- Nododd 19 o 20 o'r rhai a gyfwelwyd y byddai mwy o gyfathrebu â gofal eilaidd (gan gynnwys trwy ddefnyddio cofnod cleifion electronig) yn gwella ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu ac yn atal oedi wrth atgyfeirio cleifion a cholled i ddigwyddiadau dilynol, gan arwain at broses fwy dibynadwy.
- Roedd 18 o 20 o'r rhai a gyfwelwyd yn gyffredinol gefnogol i roi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cleifion er mwyn galluogi dysgu i wella diogelwch gofal cleifion yn y dyfodol.

Optometrig: Sicrhau Cymru Iachach

Pwyllgor Optometrig Cymru – Mawrth 2021

Ymgynghori â rhanddeiliaid eraill

Fe wnaeth y pwyllgor dderbyn adborth gan y rhanddeiliad canlynol, neu gyfarfod â hwy, wrth ddatblygu'r ddogfen.

Owen Williams, Cyfarwyddwr, Cyngor Cymru i'r Deillion
Rebecca Phillips, Swyddog Ymgysylltu, Cyngor Cymru i'r Deillion
Adele Francis, Uwch Reolwr Rhanbarthol De Cymru, Macular Society
Marian Williams, Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru, Macular Society
Miriam Jones, Gweithrediadau, Cymorth gyda'r golwg
Eryl Williams, Rheolwr Datblygu, Glaucoma UK
Andrea Gordon, Rheolwr Ymgysylltu, Guide Dogs Cymru
Nathan Foy, Swyddog Ymgysylltu, Guide Dogs Cymru
Charlie Dale, Guide Dogs Cymru
Morgan Evans, Cadeirydd, Nam ar y golwg Merthyr Tudful
Ansley Workman, Cyfarwyddwr, RNIB Cymru
Carole Morgan-Jones, Rheolwr Materion Allanol, RNIB Cymru
Rebecca Colclough, Rheolwr Swyddogion Cyswllt y Clinig Llygaid, RNIB Cymru
John Dixon, Rheolwr Partneriaeth a Datblygu, RNIB Cymru
Bablin Molik, Prif Swyddog Gweithredol, Sight Cymru
Alan Lawrie, Cyngorydd rhaglen, Rhaglen strategol genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol
Sue Morgan, Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Arweinydd Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol
Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru
Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru
Ifan Evans, Cyfarwyddwr Technoleg, Digidol a Thrawsnewid
Judy Thomas, Cyfarwyddwr gwasanaethau contractwyr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Olivier Deneve, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg yr Optometryddion
Sarah Cant, Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth, Coleg yr Optometryddion
Paramdeep Bilkhu, Cyngorydd Clinigol, Coleg yr Optometryddion
David Hewlett, Cyfarwyddwr Grŵp, FODO
Harjit Sandhu, Rheolwr Gyfarwyddwr Grŵp, FODO
Debbie McGill, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, ABDO
Max Halford, Arweinydd Clinigol, ABDO
Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri Phwyllgor Optegol Rhanbarthol yng Nghymru
Sarah Schumm, Cymrawd Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru
Tim Morgan, Cymrawd Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru